Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

# Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

## Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Mawrth 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCymunedau@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCymunedau**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

# Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

## Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Mawrth 2018

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 28 Mehefin i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): llywodraeth leol; tai; adfywio, cydlyniant a diogelwch cymunedol; trechu tlodi; cyfle cyfartal a hawliau dynol.

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**John Griffiths AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Gareth Bennett AC**
UKIP Cymru
Canol De Cymru



**Janet Finch-Saunders AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



**Siân Gwenllian AC**
Plaid Cymru
Arfon



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru
Islwyn



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd

**Jack Sargeant AC**
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy



**Bethan Sayed AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Mawrth 2018

# Cynnwys


**Argymhellion ........ 7**

**1. Cyflwyniad ........ 10**

1. 1. Termau'r gwaith craffu ........ 10

1. 2. Dull gweithredu'r Pwyllgor ........ 11

1. 3. Ystyriaeth gan Bwyllgor arall ........ 12

**2. Cefndir ........ 13**

2. 1. Galwadau am ragor o bwerau ........ 13

2. 2. Y Bil ........ 14

**3. Egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth ........ 16**

3. 1. Tystiolaeth gan randdeiliaid ........ 17

3. 2. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ........ 18

3. 3. Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol ........ 19

3. 4. Ein barn ni ........ 19

**4. Rhan 3 – Ymchwiliadau – Ar ei liwt ei hun ........ 21**

4. 1. Tystiolaeth gan randdeiliaid ........ 22

Profion ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ........ 24

Dyblygu a pherthynas â rheoleiddwyr a Chomisiynwyr eraill ........ 25

Chwythu'r Chwiban ........ 28

4. 2. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ........ 28

4. 3. Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol ........ 30

4. 4. Ein barn ni ........ 31

**5. Rhan 3 Ymchwiliadau: Y gofynion o ran cyflwyno neu atgyfeirio cwynion i'r Ombwdsmon ........ 33**

5. 1. Tystiolaeth gan randdeiliaid ........ 34

5. 2. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ........ 37

5. 3. Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol ........ 37

5. 4. Ein barn ni ........ 38

**6. Rhan 3 Ymchwiliadau: Materion y caniateir ymchwilio iddynt .... 41**

6. 1. Tystiolaeth gan randdeiliaid ......... 42

6. 2. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ......... 43

6. 3. Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol ......... 43

6. 4. Ein barn ni ......... 44

**7. Rhan 4 Awdurdodau rhestredig: Gweithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion ......... 45**

7. 1. Gweithredu gweithdrefnau ymdrin â chwynion mewn gwledydd datganoledig eraill ......... 46

7. 2. Sut y gellid gwella'r model ymdrin â chwynion presennol ......... 49

7. 3. Effaith y Bil ar weithdrefnau ymdrin â chwynion sy'n bodoli eisoes......... 53

7. 4. Y risg o herio annibyniaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ......... 58

7. 5. Yr heriau o ran gweithredu'r gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer ymdrin â chwynion ......... 60

**8. Rhan 5 Ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â phersonau eraill: Gofal cymdeithasol a gofal lliniarol ......... 63**

8. 1. Tystiolaeth gan randdeiliaid ......... 63

8. 2. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ......... 64

8. 3. Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol ......... 65

8. 4. Ein barn ni ......... 65

**9. Rhan 7 Amrywiol a Chyffredinol ......... 67**

9. 1. Tystiolaeth gan randdeiliaid ......... 67

9. 2. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ......... 68

9. 3. Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol ......... 68

9. 4. Ein barn ni ......... 68

**10. Materion technegol ......... 70**

**11. Goblygiadau ariannol ......... 73**

11. 1. Materion cyffredinol ......... 75

11. 2. Ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ......... 85

11. 3. Dull o dderbyn ac atgyfeirio cwynion ........ 87
11. 4. Ymchwilio i lwybr gofal cyhoeddus / preifat ........ 91
11. 5. Gweithdrefnau ymdrin â chwynion ........ 94
11. 6. Materion technegol ........ 97

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod y Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori â rheolyddion cyn cychwyn ymchwiliad ar ei liwt ei hun........ Tudalen 32

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 fel bod adran 8(9) yn rhoi gofyniad ar yr Ombwdsmon i gadw cofrestr o'r holl gwynion a dderbynnir, nid dim ond cwynion llafar yn unig........ Tudalen 39

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod yr Ombwdsmon yn myfyrio ar y dystiolaeth a gawsom mewn perthynas â materion gweithredol ynghylch gwneud ac atgyfeirio cwynion ac yn ystyried hyn wrth ddatblygu canllawiau ar wneud cwynion. Y meysydd y credwn y dylai hyn ei gynnwys yw:

- Gwirio cwynion llafar;
- Cyfeirio pobl at wasanaethau eiriolaeth perthnasol; a
- Lleihau'r gost o wneud cwyn. ........ Tudalen 40

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyledus i ganllawiau anstatudol presennol mewn perthynas â gweithdrefnau ymdrin â chwynion........ Tudalen 58

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gryfhau'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau'n ymwneud â'r Gymraeg. ........ Tudalen 69

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn ystyried y dystiolaeth a gawsom mewn perthynas ag adran 68 ac yn ceisio dod o hyd i gydbwysedd rhwng amddiffyniad rhag datgelu adroddiadau drafft heb ganiatâd, a diogelu Archwilydd Cyffredinol Cymru fel na fydd yn cael ei annog rhag peidio ag ymgysylltu â'r Ombwdsmon........ Tudalen 71

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i amddiffyn Archwilydd Cyffredinol Cymru rhag hawliadau difenwi wrth weithio ar y cyd â'r Ombwdsmon........ Tudalen 71

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ystyried y materion a godwyd mewn perthynas â'r darpariaethau archwilio yn Atodlen 1 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. ........ Tudalen 72

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyhoeddi Memorandwm Esboniadol diwygiedig ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyn Cyfnod 2 gan roi ystyriaeth i argymhellion y Pwyllgor. ........ Tudalen 84

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn gwneud dadansoddiad pellach ac yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys rhagor o fanylion mewn perthynas â pha sectorau ac awdurdodau rhestredig sydd fwyaf tebygol o ysgwyddo baich y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil. ........ Tudalen 84

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn ailystyried lefelau'r costau ar gyfer staff newydd a chostau rheolaidd yn ymwneud â staff. ........ Tudalen 85

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn darparu mwy o eglurder ynghylch y costau uned posibl ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. ........ Tudalen 87

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn gwneud dadansoddiad sensitifrwydd yn seiliedig ar amcanayfrif y bydd 40% o'r cwynion y bydd yr Ombwdsmon yn eu derbyn yn gwynion llafar, ac yn cyflwyno gwybodaeth am yr effaith ariannol y bydd y newid yng nghanran y cwynion a dderbynnir ar lafar yn ei chael ar y costau sy'n gysylltiedig â'r rhan hon o'r Bill. ........ Tudalen 91

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyflwyno gwybodaeth bellach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyfiawnhau'r costau staff ychwanegol sy'n deillio o'r pŵer i dderbyn cwynion llafar. ........ Tudalen 91

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cynnal dadansoddiad sensitifrwydd o gynnydd cyffredinol yn yr holl gwynion o 10% ac 20%. (nid dim ond cwynion llafar). ........ Tudalen 91

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn ceisio darparu mwy o fanylion am y gost i'r sectr preifat yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dylid gwneud hyn drwy ymgynghori â Gwasanaeth Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd Annibynnol a darparwyr y sector preifat. ........ Tudalen 94

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn adolygu'r Memorandwm Esboniadol i gynnwys y datganiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar godi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru. ........ Tudalen 98

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r canllawiau yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi. ........................................................................................................................ Tudalen 99

# 1. Cyflwyniad

## Cyflwynwyd Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) fel ym mis Hydref 2017. Rydym wedi gwneud gwaith craffu cynhwysfawr ar ddarpariaethau'r Bil a'u goblygiadau ariannol.

**1.** Cyflwynwyd Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (y Bil)[1] i'r Cynulliad gan Simon Thomas, AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid (yr Aelod Cyfrifol) ar 2 Hydref 2017.

**2.** Ar 19 Medi 2017, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Bil i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ystyried yr egwyddorion cyffredinol ac adrodd arnynt. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylem adrodd i'r Cynulliad erbyn 9 Mawrth 2018.

### 1. 1. Termau'r gwaith craffu

**3.** Cytunwyd ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer ein hymchwiliad ar 5 Hydref 2017:

Ystyried:

- Egwyddorion cyffredinol Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodir;
- Darpariaethau'r Bil sy'n nodi'r pwerau newydd i'r Ombwdsmon:
  - Derbyn cwynion llafar;
  - Cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun;
  - Ymchwilio i driniaeth feddygol breifat gan gynnwys gofal nyrsio mewn llwybr iechyd cyhoeddus / preifat;
  - Cael rôl mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau ynghylch ymdrin â chwynion.
- Unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith, ac a yw'r

[1] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) fel y'i cyflwynwyd

Bil yn ystyried y rhwystrau hyn;

- Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 6 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol);
- A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol).

## 1. 2. Dull gweithredu'r Pwyllgor

**4.** Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus ar 11 Hydref 2017, a ddaeth i ben ar 1 Rhagfyr 2017. Cawsom 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a helpodd i lywio ein gwaith craffu ar y Bil. Mae rhestr o'r rhai a ymatebodd i'w gweld ar **ein gwefan**. Yn ogystal, cynhaliwyd arolwg ar-lein, gan alluogi pobl i roi eu barn mewn ffordd fwy anffurfiol.

**5.** Cynhaliwyd 12 sesiwn tystiolaeth lafar. Mae manylion llawn y sesiynau tystiolaeth lafar ar gael **ein gwefan**.

**6.** Fe wnaethom hefyd ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol Cymru yn gofyn iddynt dynnu sylw unrhyw etholwyr a allai fod â diddordeb mewn defnyddio gwasanaethau'r Ombwdsmon, neu a oedd â phrofiad o'u defnyddio at ein gwaith.

**7.** Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith craffu, naill ai drwy dystiolaeth ysgrifenedig neu lafar neu drwy ymateb i'n harolwg ar-lein.

**8.** Fel rheol y Pwyllgor Cyllid sy'n craffu ar agweddau ariannol unrhyw Fil. Ni fyddai hyn wedi bod yn briodol ar gyfer y Bil hwn gan ei fod wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno gan y Pwyllgor Cyllid. Felly, fe wnaethom ystyried goblygiadau ariannol y Bil, ochr yn ochr â'n harchwiliad o'r egwyddorion cyffredinol.

**9.** I'n cynorthwyo gyda'n gwaith craffu ar oblygiadau ariannol y Bil, penodwyd cynghorydd arbenigol. Y cylch gorchwyl ar gyfer y gwaith hwn oedd:

- Cael dadansoddiad allanol, annibynnol i ddeall a yw'r costau a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn realistig ac yn gymesur o ran eu cyflawnder, eu hamseriad a'u maint.
- Cael barn ynghylch a fydd y pwerau ychwanegol a'r gwariant cysylltiedig sy'n deillio o'r Bil yn darparu gwerth am arian.

- Llywio barn y Pwyllgor ynghylch y ffordd y cyflwynwyd y costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac a ydynt yn caniatáu i'r Pwyllgor gael dealltwriaeth lawn o'r costau ychwanegol a'r manteision.

**10.** Roeddem yn falch o allu penodi Dr Gavin McBurnie o'r **Ganolfan Datrys Anghydfodau Defnyddwyr** ym Mhrifysgol y Frenhines Margaret. Hoffem ddiolch iddo am ei gyfraniad gwerthfawr at ein gwaith craffu. Mae copi o'i adroddiad ar gael ar ein **gwefan**.

## 1. 3. Ystyriaeth gan Bwyllgor arall

**11.** Cymerodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dystiolaeth lafar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, a'r Aelod Cyfrifol ar 15 Ionawr 2018. Disgwylir iddo gyflwyno ei adroddiad erbyn 9 Mawrth 2018.

# 2. Cefndir

Sefydlwyd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 2005, drwy'r hyn a ystyriwyd yn ddarn enghreifftiol o ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, ers hynny mae nifer o wahanol grwpiau wedi galw am newidiadau i bwerau'r Ombwdsmon. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno Bil sy'n ehangu pwerau'r Ombwdsmon.

**12.** Sefydlwyd rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) gan **Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Cymru) 2005** (Deddf 2005). Trosglwyddodd Deddf 2005 rôl a chylch gwaith Ombwdsmon Llywodraeth Leol; Comisiynydd Gwasanaethau Iechyd Cymru; Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru; ac Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru i swyddogaethau'r Ombwdsmon newydd.

**13.** Ers 2005, bu newidiadau i rôl yr Ombwdsmon, a'r mwyaf arwyddocaol o'r rheini yn sgil pasio **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Ehangodd y Ddeddf hon bwerau'r Ombwdsmon i ymchwilio i gwynion yn ymwneud â gofal cymdeithasol a gofal lliniarol yn y sector iechyd preifat. (Mae hwn yn fater y byddwn yn ei drafod ym Mhennod 8).

## 2. 1. Galwadau am ragor o bwerau

**14.** Er bod Deddf 2005 yn cael ei hystyried, ar y pryd, yn "batrwm o ddeddfwriaeth ar gyfer Ombwdsmyn",[2] bu galwadau ers 2013 i ymestyn pwerau'r Ombwdsmon. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn tynnu sylw at y ffaith bod arferion gorau a safonau rhyngwladol wedi "symud ymlaen" a bod pwerau Ombwdsmyn yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi'u cryfhau.[3]

**15.** Yn ystod y pedwerydd Cynulliad, cafwyd trafodaethau a gohebiaeth, rhwng pwyllgorau, yr Ombwdsmon blaenorol a Llywodraeth Cymru ynghylch cyfleoedd i ymestyn pwerau'r Ombwdsmon.

**16.** Trafodwyd y posibilrwydd o ymestyn pwerau'r Ombwdsmon gyda'r Ombwdsmon presennol, yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor Cyllid Amcangyfrifon

[2] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraff 3.9

[3] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraff 3.26

2015-16 yr Ombwdsmon. O ganlyniad, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid fod yr Ombwdsmon a Llywodraeth Cymru yn cydweithio ar amserlen ar gyfer diwygio'r Ddeddf.[4]

**17.** Dywedodd Llywodraeth Cymru, wrth ymateb i'r argymhelliad hwn, y byddai'n fwy priodol i'r Cynulliad arwain ar unrhyw newid deddfwriaethol gam fod yr Ombwdsmon yn craffu ar Lywodraeth Cymru.[5]

**18.** Cynhaliodd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad ymchwiliad i bwerau'r Ombwdsmon, a chyhoeddodd adroddiad a oedd yn argymell y dylid cyflwyno Bil i'r Cynulliad yn ymestyn pwerau'r Ombwdsmon.[6]

**19.** Datblygodd y Pwyllgor Cyllid Fil drafft ac ymgynghori arno. Yn dilyn hynny, argymhellodd y dylai un o bwyllgorau'r Cynulliad yn y dyfodol gyflwyno Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus cyn gynted â phosibl yn ystod y Cynulliad nesaf.[7]

**20.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amlygu'r newidiadau a wnaed i'r Bil, yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Bil drafft.[8]

## 2. 2. Y Bil

**21.** Mae saith rhan i'r Bil. Yn bennaf, mae'n ailddatgan y darpariaethau yn Neddf 2005. Fodd bynnag, mae hefyd yn cyflwyno rhai newidiadau deddfwriaethol sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pwerau i lunio canllawiau i ymdrin â chwynion;
- Pwerau i alluogi'r Ombwdsmon i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun.
- Sefydlu proses ymdrin â chwynion ar draws y sector cyhoeddus;
- Pwerau i alluogi'r Ombwdsmon i ymchwilio i elfen gofal iechyd preifat

---

[4] Y Pwyllgor Cyllid, **Craffu ar Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2015-16**, Tachwedd 2014, paragraff 24

[5] **Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid**, 18 Rhagfyr 2014

[6] Y Pwyllgor Cyllid, **Ystyried Pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**, Mai 2015

[7] Y Pwyllgor Cyllid, **Trafod yr ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft**, Mawrth 2016

[8] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraff 3.22

llwybr gofal iechyd cyhoeddus / preifat;

- Pwerau i weithio ar y cyd â chomisiynwyr eraill, cynghorwyr statudol, rheoleiddwyr a'r Archwilydd Cyffredinol yng Nghymru.
- Rhoi dyletswydd ar yr Ombwdsmon i baratoi strategaeth ar gyfer y Gymraeg;
- Rhoi dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i adolygu gweithrediad y Ddeddf;
- Cynnwys mwy o sefydliadau o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon.

# 3. Egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth

## Nod y Bil yw gwella mynediad at gyfiawnder a galluogi'r Ombwdsmon i fod yn fwy ymatebol i'r dinesydd. Credwn fod yr achos wedi'i gyfiawnhau ar gyfer y Bil. Fodd bynnag, rydym yn gwneud nifer o argymhellion y credwn y byddant yn gwella'r ddeddfwriaeth.

**22.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amlinellu prif fwriadau polisi'r Bil:

- Gwella cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
- Amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed;
- Bod yn fwy ymatebol i'r dinesydd;
- Hybu gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus ac wrth ymdrin â chwynion; a
- Chyfrannu at gyflawni nodau llesiant.[9]

**23.** Cefnogwyd y bwriad polisi gan yr Ombwdsmon presennol. Nododd fod y Bil yn adlewyrchu ei bedair blaenoriaeth sylfaenol:

- Bod yn addas ar gyfer y dyfodol;
- Cyfiawnder Cymdeithasol;
- Canolbwyntio ar y Dinesydd; a
- Hyrwyddo ymdrin â chwynion a gwella gwasanaethau cyhoeddus.[10]

**24.** Pwysleisiodd yr Aelod Cyfrifol hefyd bwysigrwydd diogelu'r ddeddfwriaeth a swyddfa'r Ombwdsmon ar gyfer y dyfodol.[11]

---

[9] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraff 3.28 – 3.55

[10] **PSOW 9, Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**, paragraff 1.3

[11] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [9-10], 29 Tachwedd 2017

## 3. 1. Tystiolaeth gan randdeiliaid

**25.** Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Conffederasiwn GIG Cymru, Cyngor Caerdydd a Cyngor ar Bopeth[12] yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

**26.** Dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon wrthym:

> "I commend the [Finance] Committee for its innovative approach to ensure that the reform of the proposed Ombudsman legislation in Wales should mirror similar reforms that have already been implemented in Northern Ireland and Scotland. This is important given our broad remits and the challenges which we face but also to ensure commonality in access to justice for Welsh citizens when compared with Scotland and Northern Ireland. The proposed Bill is welcome and I believe will deliver benefit in delivering a modern Ombudsman service that fairly and independently investigates citizen's complaints."[13]

**27.** Roedd y rhanddeiliaid yn cefnogi'r awgrym ei bod yn bryd adolygu'r fframwaith deddfwriaethol presennol i ystyried datblygiadau o fewn y sector yn y DU ac yn rhyngwladol.

**28.** Ar y llaw arall, mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn credu nad oes gan yr Ombwdsmon ddigon o atebolrwydd ac nad oes digon o graffu ar ei waith, gan ddweud y dylid cymryd gofal wrth ymestyn pwerau'r Ombwdsmon.[14]

**29.** Er gwaethaf y gefnogaeth i egwyddorion cyffredinol y Bil, tynnodd yr ymatebwyr sylw at bryderon am elfennau unigol. Yn benodol, clywsom sut y gallai rhai o'r darpariaethau weithio'n ymarferol ac effaith ariannol y Bil. Byddwn yn trafod pob un o'r rheini yn y penodau nesaf.

**30.** Roedd rhai o'r themâu clir yn y dystiolaeth yn ymwneud â phryderon ynghylch:

- dyblygu rolau, a chryfhau tirwedd rheoleiddiol gymhleth yn barod;
- pryderon ynghylch baich costau rhai o'r darpariaethau a fydd yn dod i

[12] **PSOW30 CLlC**, paragraff 6; **PSOW13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraff 8. **PSOW21 Cyngor Caerdydd**, **PSOW31 Cyngor ar Bopeth Cymru**, paragraff 25

[13] **PSOW 10, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon**, 2.3

[14] **PSOW28 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**, paragraff 4.1

ran cyrff cyhoeddus sydd eisoes yn gwneud dewisiadau ariannol anodd;

- pryderon ynghylch sut y byddai rhai o'r darpariaethau'n gweithio'n ymarferol.

**31.** Dywedodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fod y Bil yn cyd-fynd â "chyfeiriad" gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, dywedodd y byddai'n rhaid alinio'r broses weithredu'r Bil â datblygiadau deddfwriaethol eraill yn y sectorau sy'n dod o fewn cylch gwaith yr Ombwdsmon.[15] Pwysleisiwyd hyn gan ymatebwyr eraill hefyd.[16]

**32.** Un thema allweddol oedd bod llwyddiant y ddeddfwriaeth yn dibynnu ar weithredu effeithiol, fel y nododd Brian Thompson o Brifysgol Lerpwl:

> "To sum up the legislation is not a magic bullet. It is the product of a policy which it seeks to implement by providing tools and powers. To achieve its goals cultural change is required, those providing public services must be aware of, and be supported in, achieving the delivery of better public services. This will also require the opportunity for challenge to resolve and learn from problems, so that dissatisfied users can feel confident when they wish to complain that this will be simple to do, and will be taken seriously leading to an appropriate remedy and action to improve service."[17]

## 3. 2. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**33.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ("Ysgrifennydd y Cabinet") wrthym fod Llywodraeth Cymru yn hapus i gefnogi dwy elfen o'r Bil: darpariaethau'n ymwneud ag atgyferio cwynion a gwneud cwynion; ac ymestyn pwerau'r Ombwdsmon i'w alluogi i ymchwilio i gwynion gofal iechyd preifat / cyhoeddus. Aeth ymlaen i ddweud nad yw Llywodraeth Cymru yn mynegi barn ar y ddau brif bŵer newydd arall, ac y byddai'n myfyrio ar ein casgliadau a'n trafodaethau.[18]

---

[15] **PSOW17 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**, paragraffau 3-5.

[16] **PSOW13 NHS Confederation Conffederasiwn GIG**, paragraff 7

[17] **PSOW 25, Brian Thompson, Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Lerpwl**, paragraff 9

[18] **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau mewn perthynas â Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**, 20 Rhagfyr 2017

## 3. 3. Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**34.** Pwysleisiodd yr Aelod Cyfrifol fod y Bil hwn yn bwysig, a bod pethau wedi symud ymlaen ers Deddf 2005:

> "… mae yna nifer o lefydd lle rydym ni'n teimlo bod angen cryfhau rôl yr ombwdsmon i wneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud yn iawn gyda phobl—dinasyddion sydd wedi wynebu camwedd—a gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud yn iawn gyda dinasyddion sydd yn chwilio am gyfiawnder wrth ddelio â chyrff cyhoeddus a'u bod nhw felly'n cael iawndal, yn foesol o leiaf, am y cam hwnnw.
>
> Ac mae'n ceisio hyrwyddo, yn benodol, hawliau dinasyddion o ran gwasanaethau cyhoeddus. Rydym ni'n ceisio gwneud yn siŵr ei bod yn saff ar gyfer y dyfodol a'i bod yn ddigon hyblyg fel darn o ddeddfwriaeth ar gyfer datblygiadau posibl."[19]

**35.** Dywedodd nad oedd y Bil yn newid swyddfa neu rôl yr Ombwdsmon yn sylweddol. Pwysleisiodd hefyd y byddai'r newidiadau a gynigir gan y Bil yn helpu i sicrhau y gellid manteisio ar gwynion yn well i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â gwella mynediad at gyfiawnder i'r dinesydd.[20]

## 3. 4. Ein barn ni

**36.** Rydym cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. Mae'r gefnogaeth hon yn cwmpasu pob un o'r elfennau newydd a gyflwynwyd gan y Bil. Credwn y bydd y Bil yn gyffredinol yn cyflawni'r bwriadau polisi a nodir yn y Memorandwm Esboniadol.

**37.** Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth hon yn amodol, ac mae nifer o feysydd lle yr hoffem weld gwelliannau'n cael eu cyflwyno yng Nghyfnod 2. Yn hollbwysig, credwn fod angen gwaith ychwanegol ar agweddau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ond ar ôl i'r gwaith hwn gael ei wneud, credwn y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'r penderfyniad ariannol angenrheidiol.

---

[19] Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [9-10], 29 Tachwedd 2017

[20] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [205-206], 25 Ionawr 2018

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod y Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

# 4. Rhan 3 – Ymchwiliadau – Ar ei liwt ei hun

## Bydd y darpariaethau i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn galluogi'r Ombwdsmon i gynnal ymchwiliadau heb dderbyn cwyn ar yr amod bod meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Er ein bod yn credu bod angen diwygio rhai o'r darpariaethau, rydym yn cefnogi ymestyn pwerau'r Ombwdsmon.

**38.** Mae adrannau 4 a 5 o'r Bil yn cyflwyno'r pwerau i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Mae'r adrannau hyn wedi deillio o adrannau 8 a 9 o **Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 2016**.

**39.** Mae Adran 4 yn galluogi'r Ombwdsmon i ymchwilio i fater p'un a yw wedi derbyn cwyn ai peidio. Fodd bynnag, gall ond ymchwilio i fater mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddo o dan y pŵer hwn. Mae adrannau 10 -14 yn nodi'r materion y gellir ymchwilio iddynt.

**40.** Mae Adran 5 yn nodi'r meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Rhaid i'r Ombwdsmon fod yn fodlon bod ymchwiliad o'r fath er budd y cyhoedd. Yn ogystal, mae'n rhaid bodloni un o'r meini prawf hyn hefyd:

- Bod unrhyw berson hyglwyf neu dan anfantais yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi;
- Rhaid i'r ymchwiliad fod yn ymwneud â methiant systemig a all achosi i unrhyw berson ddioddef anghyfiawnder neu galedi (wrth benderfynu ar y maen prawf hwn, mae'n rhaid i'r Ombwdsmon roi ystyriaeth i unrhyw gwynion y mae wedi'u derbyn).

**41.** Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r meini prawf drwy reoliadau, yn amodol ar weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad.[21]

**42.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amlinellu'r pedair sefyllfa wahanol lle mae'n debygol y byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio:

---

[21] Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn darparu na all Gweinidogion Cymru arfer eu pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth oni bai bod y Cynulliad wedi pasio penderfyniad sy'n cymeradwyo drafft o'r is-ddeddfwriaeth. Felly, mae'r is-ddeddfwriaeth wedi'i gosod gerbron y Cynulliad ar ffurf drafft, ac ni all ddod i rym oni bai fod y Cynulliad yn cymeradwyo'r drafft.

- Ymestyn ymchwiliad i gŵyn i gynnwys corff cyhoeddus arall heb fod angen cwyn newydd gan yr achwynydd (Senario A);
- Canfyddiadau o ymchwiliad i gŵyn yn esgor ar ymchwiliad i gyrff eraill i sefydlu a oes methiannau tebyg i'w cael mewn mannau eraill (Senario B);
- Ymchwilio i gŵyn ddienw (Senario C);
- Ymchwilio, oherwydd pryderon, i sector cyfan, neu ran o sector, sy'n darparu gwasanaeth (Senario D).[22]

**43.** Mae Adran 16 o'r Bil yn nodi'r weithdrefn ymchwilio (mae hyn yn cynnwys ymchwiliadau sy'n codi o gwynion a gyflwynwyd yn ogystal ag ymchwiliadau ar ei liwt ei hun). Mae'r adran hon yn cynnwys gofynion ar yr Ombwdsmon i baratoi cynnig ymchwilio, a'i gyflwyno i'r awdurdod rhestredig yr ymchwilir iddo. ("Awdurdodau rhestredig" yw'r cyrff cyhoeddus hynny sydd o fewn cylch gwaith yr Ombwdsmon. Maent wedi'u rhestru yn Atodlen 3 i'r Bil).

**44.** Mae adrannau 64-67 o'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r Ombwdsmon ymgynghori a chydweithredu ag Ombwdsmyn, comisiynwyr, rheoleiddwyr a chynghorwyr statudol eraill. Byddai'r darpariaethau hyn yn cwmpasu unrhyw ymchwiliadau ar ei liwt ei hun.

**45.** Yr Ombwdsmon yn unig fydd yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen ag ymchwiliad ar ei liwt ei hun, yn amodol ar a yw'r ymchwiliad yn bodloni'r meini prawf a nodir yn adran 5.

## 4. 1. Tystiolaeth gan randdeiliaid

**46.** Ar y cyfan, roedd y rhanddeiliaid yn cefnogi'r cynigion, ond clywsom nifer o awgrymiadau ynghylch sut y dylid diwygio'r Bil. Fe wnaethom hefyd ymchwilio i sut y gallai'r pwerau i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun weithio. Os bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol, byddem yn disgwyl i'r Ombwdsmon roi ystyriaeth i rai o'r materion gweithredol y tynnwyd sylw atynt yn y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar.

**47.** Er bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn gefnogol i'r cynigion hyn, roedd cefnogaeth rhai rhanddeiliaid yn amodol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA), a ddywedodd fod rhai o'i haelodau

[22] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraff 10.9

wedi mynegi rhywfaint o anfodlonrwydd ynghylch y pŵer. (Roedd hyn o ganlyniad i bryderon ynghylch sut mae'r Ombwdsmon yn gweithredu ar hyn o bryd.)[23]

- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Fel y BMA, roedd ei phryderon yn ymwneud â sut mae'r Ombwdsmon wedi bod yn gweithredu'n ymarferol.[24]

- Nododd Conffederasiwn y GIG ei fod yn cefnogi'r cynigion mewn perthynas â senarios A a C (gweler paragraff 42) ond roedd ganddynt amheuon ynghylch eu defnyddio yn senarios B a D.[25]

**48.** Yn yr arolwg ar-lein, cawsom rai sylwadau yn gwrthwynebu'r pwerau i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Tynnodd un ymatebydd sylw at bryderon y gallai ymchwiliadau ar ei liwt ei hun gael effaith negyddol ar sut y byddai'r Ombwdsmon yn ymdrin â chwynion a gyflwynwyd. Fodd bynnag, roedd rhai sylwadau gan y cyhoedd yn cefnogi'r ddarpariaeth hon, gan dynnu sylw at y ffaith y byddai'n galluogi i faterion gael eu hystyried pan fydd gormod o ofn cwyno ar bobl.

**49.** Clywsom gan yr Ombwdsmon a'r ombwdsmyn cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban fod pwerau i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn gyffredin ledled Ewrop, ac yn cael eu hystyried yn rhan annatod o wasanaeth Ombwdsmon modern a blaengar.[26] Dywedodd yr Ombwdsmon wrthym fod nifer yr ymchwiliadau ar ei liwt ei hun bob blwyddyn yn debygol o fod yn isel. Cyfeiriodd at Ombwdsmon Iwerddon fel enghraifft, sydd ond wedi cynnal pum ymchwiliad ar ei liwt ei hun rhwng 2001 a 2010.[27] Roedd yr Ombwdsmon yn credu y byddai unrhyw ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn rhai a fyddai wedi'u targedu'n benodol iawn, ac y byddent yn cwmpasu un neu ddwy astudiaeth y flwyddyn.[28]

**50.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi pwyslais mawr ar botensial y pwerau hyn i helpu i amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed, yn ogystal â helpu'r

---

[23] **PSOW27 Cymdeithas Feddygol Prydain**, tudalen 3

[24] **PSOW 28 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**, paragraffau 2.1 a 2.3

[25] **PSOW 13 Conffederasiwn GIG**, paragraff 23

[26] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [290], 7 Rhagfyr 2017

[27] **PSOW 9, Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**, paragraff 2.1 (b)

[28] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [9], 7 Rhagfyr 2017

Ombwdsmon i fod yn fwy ymatebol i'r dinesydd.[29] Ategwyd hyn mewn tystiolaeth a roddwyd inni gan dystion.

**51.** Yn benodol, dywedodd rhanddeiliaid y byddai'r pwerau hyn yn galluogi'r Ombwdsman i:

- Ymchwilio i feysydd lle nad yw cwynion ffurfiol yn cael eu cyflwyno oherwydd bod gormod o ofn ar bobl i gwyno. Yn benodol, clywsom bryderon am y niferoedd bach o gwynion yn y sector gofal cymdeithasol;[30]
- Parhau i ymchwilio i gŵyn y rhoddwyd y gorau iddi neu os bydd achwynydd yn rhoi'r gorau i ymateb i gyswllt gan swyddfa'r Ombwdsmon, sy'n aml yn wir mewn perthynas â phobl sy'n agored iawn i niwed;[31]
- Edrych ar faterion traws-sectoraidd.[32]

## Profion ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun

**52.** Sail yr ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yw'r prawf budd y cyhoedd. Fel y nodir ym mharagraff 40, rhaid i'r Ombwdsmon fod yn fodlon bod ymchwiliad er budd y cyhoedd. Nid yw hyn wedi'i ddiffinio yn y ddeddfwriaeth, a dywedodd Ombwdsmon Gogledd Iwerddon wrthyi bod yn bwysig iawn mai'r Ombwdsmon fyddai'n penderfynu beth yw budd y cyhoedd.[33]

**53.** Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys CLlLC, yn croesawu'r newidiadau a wnaed ers i'r Bil drafft gael ei gyhoeddi, gan gynnwys cyflwyno'r "prawf deuol" (paragraff 40) i sicrhau bod y pwerau i ymchwilio ar ei liwt ei hun yn cael eu harfer yn briodol ac yn gymesur.[34] Fe wnaethom drafod gyda nifer o dystion a oedd lefelau'r camau diogelu a osodwyd ar wyneb y Bil yn ddigonol.

---

[29] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraffau 3.36 - 3.43

[30] Roedd y rhanddeiliaid a gododd y mater hwn yn cynnwys yr Ombwdsmon, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon, Cyngor ar Bopeth a Gofal Cymdeithasol Cymru.

[31] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [293], 7 Rhagfyr 2017

[32] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [294], 7 Rhagfyr 2017

[33] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [263], 7 Rhagfyr 2017

[34] **PSOW 30, CLlLC**, paragraff 18

**54.** Pwysleisiodd Ombwdsmon Gogledd Iwerddon, yn ogystal â'r camau diogelu yn y Bil, fod cam diogelu sylfaenol yn swydd yr Ombwdsmon ei hun, sy'n berson cyfrifol ac yn swyddog yr ymddiriedir ynddo. Amlygodd y byddai'r Ombwdsmon yn destun adolygiad barnwrol yn y pen draw.[35]

**55.** Tynnodd Ombwdsmon yr Alban sylw at y ffaith bod tryloywder yn haen arall o gamau diogelu, gyda rhagdybiaeth (ond nid gofyniad) y byddai adroddiadau ynghylch ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn cael eu cyhoeddi.[36]

**56.** Pwysleisiodd yr Ombwdsmon, gan ei fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y pen draw, pe bai pryderon ynghylch y penderfyniadau, y gallai pwyllgorau'r Cynulliad graffu arnynt ac y gallai'r Cynulliad ddiswyddo'r Ombwdsmon.[37]

**57.** Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau i newid y meini prawf ar gyfer cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Mae hwn yn fater yr ydym yn ei drafod mharagraffau 73-74.

## Dyblygu a pherthynas â rheoleiddwyr a Chomisiynwyr eraill

**58.** Y pryder mwyaf cyffredin a godwyd am y darpariaethau i ymchwilio ar ei liwt ei hun oedd y risg o ddyblygu gwaith, y baich rheoleiddio a dryswch ynghylch pwy fyddai'n gwneud darnau o waith. Dywedodd Conffederasiwn y GIG:

> "Where there are concerns about significant service failure, which is a matter of public interest, then investigations should be carried out. In deciding whether such investigations should be conducted by the Ombudsman or another organisation, such as HIW or CSSIW, our concern would be to avoid any duplication with other regulatory bodies who already have a remit to undertake investigations."[38]

**59.** Mynegodd bryderon hefyd ynghylch yr effaith y gallai dyblygu o'r fath ei chael:

> "… one of the issues around that [Mid Staffordshire] was, actually, you had lots of regulators and investigatory bodies, but it's that sharing of

[35] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [267], 7 Rhagfyr 2017

[36] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [296], 7 Rhagfyr 2017

[37] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [25], 7 Rhagfyr 2017

[38] **PSOW 13 Conffederasiwn GIG Cymru, paragraff 13**

information that's really, really important….it is about connectivity that would really need to happen, so that you've got the right people undertaking an investigation, with the right terms of reference, and the right questions to actually confirm what the issues really are."[39]

**60.** Dywedodd yr Ombwdsmon wrthym fod perygl eisoes y byddai'r math hwnnw o ddyblygu yn digwydd oherwydd bod ganddo bwerau thematig eisoes. Eglurodd, er mwyn lleihau'r risg o ddyblygu, ei fod yn cwrdd yn rheolaidd â rheoleiddwyr a chomisiynwyr eraill.[40]

**61.** Tynnodd yr Aelod Cyfrifol hefyd sylw at hyn yn ei dystiolaeth, gan nodi bod y berthynas waith rhwng yr Ombwdsmon a'r rheoleiddwyr/comisiynwyr wedi'i sefydlu ac yn effeithiol.[41] Rheolir y perthnasoedd hyn naill ai drwy ymarfer gweithio anffurfiol neu mewn nifer o achosion, drwy femoranda cyd-ddealltwriaeth ffurfiol.[42] Cadarnhawyd hyn gan y rheoleiddwyr gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru[43] ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.[44]

**62.** Roedd yn glir mewn tystiolaeth lafar gan reoleiddwyr (Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Gwasanaeth Dyfarnu Cwynion y Sector Gofal Iechyd Annibynnol), er bod y dirwedd reoleiddiol yn orlawn, y gallai'r darpariaethau yn y Bil weithio, cyhyd â bod cydweithredu a chyfathrebu clir rhwng cyrff cyhoeddus.[45] Byddai'n rhaid i'r perthnasoedd hyn gael eu trin yn ofalus iawn gan yr holl bartïon a fyddai'n rhan ohonynt.[46]

[39] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [144], 7 Rhagfyr 2017

[40] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [13], 7 Rhagfyr 2017

[41] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [339], 25 Ionawr 2018

[42] Mae gan yr Ombwdsmon Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda: Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru; y Cyngor Deintyddol Cyffredinol; Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru; Comisiynydd Plant Cymru; Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; Comisiynydd y Gymraeg ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael ar **wefan** yr Ombwdsmon.

[43] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [88], 13 Rhagfyr 2017

[44] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [102], 7 Rhagfyr 2017

[45] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [105], 13 Rhagfyr 2017

[46] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [91], 13 Rhagfyr 2017

**63.** Nododd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, er bod y Bil yn cynnwys darpariaethau penodol yn Rhan 6 ar gyfer cydweithio â Chomisiynwyr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, nad oes darpariaethau tebyg ar gyfer y rheoleiddwyr.

**64.** Un o'r materion a ystyriwyd gennym oedd a oedd risg o anghydfod rhwng y gwahanol bartïon ynghylch pwy ddylai ymchwilio i fater penodol.

**65.** Amlygodd Gofal Cymdeithasol Cymru bryderon ynghylch pwy fyddai'n cael blaenoriaeth pe bai'r Ombwdsmon a rheoleiddiwr yn gwneud gwaith mewn maes tebyg:

> "We would like to know whose complaint investigation will take priority where there are parallel investigations by Social Care Wales and the Ombudsman about the same or related issues. We would also question how the Ombudsman will ensure impartiality in investigations into our handling of a complaint (under our complaint or review processes) where the Ombudsman has already been investigating complaints about the same or related issues."[47]

**66.** Mewn perthynas â chwynion iechyd, nododd Conffederasiwn GIG Cymru bwysigrwydd deialog gynnar rhwng yr Ombwdsmon, y GIG, Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru cyn i'r Ombwdsmon ddechrau ar ymchwiliad ar ei liwt ei hun. Awgrymodd, pan fydd yr Ombwdsmon yn canfod problem y dylai gysylltu â chyrff presennol sydd â digon o adnoddau a phrofiad o ran cynnal ymchwiliadau o'r fath. Dadleuodd Conffederasiwn GIG Cymru y byddai hyn yn lleihau'r risg o ddyblygu, y byddai'n sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ac yn osgoi rhoi pwysau gormodol ar y gwasanaeth iechyd.[48]

**67.** Roedd CLlLC yn cydnabod bod rôl yr Ombwdsmon yn wahanol i rôl rheoleiddiwr. Dywedodd CLlLC fod angen mwy o eglurder yn y Bil ynghylch sut y bydd anghydfodau'n cael eu datrys.

**68.** Awgrymodd y dylid diwygio'r Bil i gynnwys croesgyfeirio rhwng adran 4 ac adran 65 er mwyn ei gwneud yn gliriach y dylai'r Ombwdsmon ymgynghori â rheoleiddwyr eraill:

> "I thought that it would cross-reference with section 65 as well, which talks about consultation with specified people. But I think, given that section 4 is specifically around power to investigate own initiative, it

[47] **PSOW16 Gofal Cymdeithasol Cymru**, paragraff 9

[48] **PSOW 13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraffau 15 ac 17

would help, then, if that was the case, if there was a cross-reference through on that. But I think you're right, it does leave too much scope for openness and interpretation in terms of an absence of specified bodies for him to consult with in that section."[49]

## Chwythu'r Chwiban

**69.** Tynnodd yr Ombwdsmon presennol sylw at y ffaith y byddai'r pwerau i ymchwilio ar ei liwt ei hun yn ei alluogi i weithredu ar bryderon a godir gan chwythwyr chwiban. Dywedodd nad yw'n gallu gweithredu ar bryderon a godir gan aelod o staff ar hyn o bryd.[50]

**70.** Tynnodd CLlLC sylw at y ffaith nad oedd chwythu'r chwiban wedi bod yn fater penodol a ystyriwyd yn unrhyw un o'r ymgyngoriadau blaenorol ar y posibilrwydd o ymestyn pwerau'r Ombwdsmon.[51] Dywedodd fod yr Ombwdsmon eisoes yn berson rhagnodedig o dan Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014, ond y byddai ehangu'r pwerau i ymchwilio ar ei liwt ei hun yn galluogi'r Ombwdsmon i ystyried materion a godwyd gan chwythwr chwiban, ac roedd yn cefnogi hynny.[52]

## 4. 2. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**71.** Dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd yn mynegi barn ar y darpariaethau hyn am y tro.[53] Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Llywodraeth am gael sicrwydd bod y broses yr oedd yr Ombwdsmon yn ei dilyn yn gymesur a bod rhai o'r canlyniadau anfwriadol posibl, pe na bai hynny'n cael ei wneud yn y ffordd iawn, wedi eu hystyried.[54]

---

[49] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [16-17], 11 Ionawr 2018

[50] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [9], 7 Rhagfyr 2017

[51] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [47], 11 Ionawr 2018

[52] **Llythyr gan CLlLC at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol**, 23 Ionawr 2018

[53] **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau mewn perthynas â Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**, 20 Rhagfyr 2017

[54] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [140], 11 Ionawr 2018

**72.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod camau diogelu yn y Bil, a bod Llywodraeth Cymru o'r farn eu bod yn ddigonol fel y maent, ond roedd Gweinidogion yn dymuno gweld sut y byddai'r darpariaethau'n gweithio'n ymarferol. Gellid gwneud hyn gan wybod y gallai Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i newid y meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, pe na baent yn gweithio fel y bwriadwyd.

**73.** Fe wnaethom ymchwilio i a oedd yn briodol i Lywodraeth Cymru gael y pŵer i newid y meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, o ystyried ei bod yn awdurdod rhestredig ei hun. Codwyd hyn gan yr Ombwdsmon a ddywedodd:

> "I can live with the provisions in the Bill. There might be some who perhaps have a more purist view that actually my accountability is to the Assembly and only to the Assembly, and might feel slightly uncomfortable with the fact that the provisions give the right to Ministers to set the criteria. But I don't have a problem with this. I think that anyone who has own-initiative has to exercise that with responsibility, with measurement and restraint. So, some might feel it's too prescriptive currently, but I understand why those provisions are in the Bill and I could live with them."[55]

**74.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, er ei fod yn gallu deall y pryderon, mai'r Cynulliad fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol, oherwydd byddai unrhyw newidiadau i'r meini prawf yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol.

**75.** Ategodd Ysgrifennydd y Cabinet bryderon y rhanddeiliaid ynghylch y risg y gallai'r darpariaethau hyn greu cymhlethdod neu ddyblygu pellach. Dywedodd na fyddai'n dymuno i'r Ombwdsmon fod yn agored i'r cyhuddiad ei fod yn cael ei greu fel rhyw fath o uwch-reoleiddiwr.[56] Roedd hefyd yn cytuno â'r pryderon a leisiwyd gan Gonffederasiwn y GIG (paragraff 59) ynghylch osgoi ailadrodd y problemau a gododd yng Nghanol Swydd Stafford.[57]

**76.** Fodd bynnag, wrth bwyso a mesur y pwerau, nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod gan yr Ombwdsmon oruchwyliaeth dros ystod o feysydd polisi ac nad yw hyn yn wir am unrhyw reoleiddiwr arall. Dywedodd hefyd fod y pwerau presennol yn

[55] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [11], 7 Rhagfyr 2017

[56] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [160], 11 Ionawr 2018

[57] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [161], 11 Ionawr 2018

atal yr Ombwdsmon rhag ymchwilio mewn rhai amgylchiadau:

> "And in a relatively confined set of circumstances, I don't think it's unfair to say that the ombudsman should be able to act on behalf of the citizen in that way."[58]

**77.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet yn glir y byddai anghydfodau rhwng rheoleiddwyr a chomisiynwyr yn fater i'r Ombwdsmon benderfynu arnynt, gan dynnu sylw at y ffaith mai dim ond dyletswydd i ymgynghori sydd gan yr Ombwdsmon.[59]

## 4. 3. Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**78.** Dadleuodd yr Aelod Cyfrifol y byddai'r darpariaethau newydd hyn yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cyd-fynd â'r safonau rhyngwladol gorau.[60] Yn ei farn ef, roedd yn estyniad naturiol o bwerau presennol yr Ombwdsmon, a byddai'n helpu i gryfhau cadernid y broses o ymdrin â chwynion, ac yn y pen draw, yn arwain at welliannau i wasanaethau cyhoeddus.

**79.** Ailbwysleisiodd hefyd fod gwreiddiau rôl yr Ombwdsmon yn seiliedig ar y cwynion a dderbynnir gan y cyhoedd a bod y pwerau hyn yn ychwanegol at yr elfen graidd honno o'i rôl.[61] Dywedodd fod cynnwys y meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ar wyneb y Bil yn rhoi'r sicrwydd na fyddai'r pwerau hyn yn rhoi rhwydd hynt i newid rôl sylfaenol yr Ombwdsmon.[62]

**80.** Mewn perthynas â phryderon a godwyd ynghylch y risg o ddyblygu, rhoddodd yr Aelod Cyfrifol amddiffyniad cadarn a chlir o'r darpariaethau:

> "It's really important to bear in mind that regulators established by Government to regulate Government services is a different process than an independent public services ombudsman. It is conceivable, of course, that a regulator and the ombudsman might look at the same

[58] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [163], 11 Ionawr 2018

[59] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [149], 11 Ionawr 2018

[60] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [12], 29 Tachwedd 2017

[61] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [20], 29 Tachwedd 2017

[62] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [23], 29 Tachwedd 2017

> broad range of issues....That is not duplication; they are looking at it from two completely different perspectives. One is a regulator looking at legislation, looking at what the Government objectives are, looking at Government statutory guidance and all the rest, and looking to see that's been followed. The other is the voice of the citizen-the voice of the citizen brought in, sometimes in place of a vulnerable person who might have perceived some kind of harm or injustice arising from that, and I think the two are very discrete and very different. I think it's very dangerous to think that because a regulator is looking at something, the ombudsman shouldn't go there. I think the ombudsman has to be independent, has to be able to respond to a citizen's concerns or concerns brought to the ombudsman by other citizens, and I don't regard that as encroachment. I regard that as a part of the complex but necessary range of provisions that the Assembly has made in order to ensure citizen's rights in Wales."[63]

**81.** Dadleuodd hefyd, drwy gryfhau pwerau'r Ombwdsmon, y byddai'r Cynulliad yn cryfhau un o benodiadau'r Cynulliad, yn hytrach nag un o benodiadau'r Llywodraeth.[64]

**82.** Mewn perthynas â phryderon a godwyd ynglŷn â'r risg bosibl o anghydfod rhwng rheoleiddwyr a'r Ombwdsmon, dywedodd yr Aelod Cyfrifol wrthym ei fod yn gobeithio na fyddem byth mewn sefyllfa lle na allent ddod i ganlyniad a oedd yn dderbyniol i bawb. Eglurodd fod y trefniadau o fewn y Bil yn adlewyrchu'r rhai yn Neddf 2005 ac yn mynd ymhellach na hynny i alluogi mwy o gydweithio.[65] Dywedwyd wrthym hefyd nad yw'r Bil yn gwella'r ystod o faterion y gellir ymchwilio iddynt, felly nid yw'n creu gorgyffwrdd annisgwyl ychwanegol gyda'r comisiynwyr eraill hyn.[66]

## 4. 4. Ein barn ni

**83.** Mae'n amlwg, gydag ambell eithriad, fod y rhan fwyaf o randdeiliaid o blaid ehangu pwerau i'r Ombwdsmon yn y maes hwn. Credwn fod manteision i

---

[63] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [248], 25 Ionawr 2018

[64] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [41], 29 Tachwedd 2017

[65] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [35-36], 29 Tachwedd 2017

[66] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [43], 29 Tachwedd 2017

ddinasyddion unigol sy'n wynebu anghyfiawnder, ac i'r agenda gwella gwasanaethau cyhoeddus ehangach, yn sgil rhoi pwerau i'r Ombwdsmon i gychwyn ymchwiliadau ar ei liwt ei hun.

**84.** Roeddem yn teimlo bod y ffordd yr oedd yr Aelod Cyfrifol wedi amlinellu rolau a phwrpas gwahanol yr Ombwdsmon a'r rheoleiddwyr yn ddefnyddiol iawn. Rhoddodd sicrwydd inni ynghylch natur eu rolau, a'r risgiau o ddyblygu.

**85.** Fodd bynnag, credwn y gellir gwneud gwelliannau i'r Bil er mwyn lleihau'r risgiau o ddyblygu. Credwn y dylid cryfhau'r pwerau mewn perthynas ag ymgynghori, ac y dylid gwneud y gofyniad hwn yn orfodol yn hytrach na'i adael i ddisgresiwn yr Ombwdsmon.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori â rheolyddion cyn cychwyn ymchwiliad ar ei liwt ei hun.

**86.** Er ein bod yn cydnabod y darpariaethau cyfreithiol cymhleth sy'n ymwneud â chwythu'r chwiban, credwn y dylai unrhyw gyhoeddusrwydd sy'n ymwneud â phwerau'r Ombwdsmon, egluro y byddai'r ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn galluogi'r Ombwdsmon i ymgymryd ag ymchwiliadau a ysgogir gan chwythwyr chwiban. (Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod bod yn rhaid gwneud hyn mewn ffordd nad yw'n gosod gofynion neu ddisgwyliadau afrealistig ar swyddfa'r Ombwdsmon).

# 5. Rhan 3 Ymchwiliadau: Y gofynion o ran cyflwyno neu atgyfeirio cwynion i'r Ombwdsmon.

## Ar hyn o bryd mae gan yr Ombwdsmon y pŵer i dderbyn cwynion llafar, ond mae'r pŵer hwn yn ddewisol. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn ceisio gwella mynediad at wasanaethau'r Ombwdsmon, ac mae'r Pwyllgor yn croesawu hynny.

**87.** O dan Ddeddf 2005, mae dau ofyniad ar gyfer cyflwyno cwynion i'r Ombwdsman:

- Rhaid eu gwneud yn ysgrifenedig [er bod gan yr Ombwdsmon bwerau dewisol i dderbyn cwyn mewn fformat heblaw yn ysgrifenedig os yw'n ystyried ei bod yn rhesymol i wneud hynny]; a
- Ni ddylid ei gwneud fwy na 12 mis ar ôl i'r achwynydd ddod yn ymwybodol gyntaf o'r materion a godir yn y gŵyn.

**88.** Mae adrannau 8 a 9 o'r Bil yn cwmpasu'r gofynion yn ymwneud â chyflwyno neu atgyfeirio cwynion i'r Ombwdsmon. Er bod y darpariaethau'n deillio o'r darpariaethau tebyg yn Neddf 2005, mae newidiadau sylweddol iddynt.

**89.** Mae Adran 8 yn cadw'r terfyn amser ar gyfer gwneud cwyn, ond mae'n dileu'r gofyniad i wneud cwyn yn ysgrifenedig. Mae hefyd yn nodi'r gofynion ychwanegol ar gyfer derbyn cwynion llafar, sy'n cynnwys bod yn rhaid i'r Ombwdsmon gadw cofrestr o'r holl gwynion llafar.

**90.** Mae Adran 8 yn nodi y dylid darparu ar gyfer unrhyw ofynion eraill ar gyfer cwynion, ac eithrio'r rhai a nodir yn adran 8, mewn canllawiau a gyhoeddir gan yr Ombwdsmon.

**91.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu y gallai ehangu pwerau'r Ombwdsmon i'w alluogi i ragnodi canllawiau ar sut y gellid gwneud cwynion er mwyn gwella cyfleoedd i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed a'r rhai mwyaf

difreintiedig yng Nghymru gael gafael ar wasanaethau'r Ombwdsmon.[67]

## 5. 1. Tystiolaeth gan randdeiliaid

**92.** Roedd y rhanddeiliaid yn cefnogi'r darpariaethau hyn yn gyffredinol. Er gwaethaf hyn, tynnodd yr ymatebwyr sylw at rai o'r rhwystrau posibl i weithredu'r darpariaethau hyn yn effeithiol, a sut y gellid mynd i'r afael â hwy.

**93.** Roedd yr Ombwdsmon yn glir iawn ynghylch yr angen am y newid hwn:

> "I found it positively feudal in terms of the way in which the current legislation is drafted. I can currently consider an oral complaint should I consider it appropriate using my discretion. I'm sorry; people who might have literacy issues have rights too. They shouldn't be dependent upon what mood I or anybody else doing my job happen to be in as to whether or not you're going to exercise that discretion."[68]

**94.** Dywedodd hefyd nad oedd yn ceisio troi swyddfa'r Ombwdsmon yn ganolfan alwadau, ond y byddai ganddo hyblygrwydd i alluogi'r rhai mwyaf difreintiedig i gael mynediad at ei wasanaethau, os bydd angen.[69]

**95.** Cawsom lawer o dystiolaeth yn nodi y byddai dileu'r gofyniad i wneud cwyn yn ysgrifenedig a galluogi'r Ombwdsmon i nodi sut y gellid derbyn cwynion yn gam cadarnhaol, a byddai'n helpu i gael gwared ar rwystrau i'r rhai mwyaf difreintiedig gael mynediad at gyfiawnder. Amlygwyd hyn gan Gyngor Blaenau Gwent,[70] y Cyngor Meddygol Cyffredinol,[71] CLlLC,[72] Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru[73] a Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.[74]

**96.** Wrth gefnogi'r ddarpariaeth hon, cyfeiriodd y tystion at dystiolaeth debyg i'r hyn sydd yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch lefelau llythrennedd yng Nghymru, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar allu rhywun i gyflwyno cwyn

---

[67] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraff 3.32

[68] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [47], 7 Rhagfyr 2017

[69] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [50], 7 Rhagfyr 2017

[70] **PSOW07 Cyngor Blaenau Gwent**, paragraff 1.1

[71] **PSOW24 Y Cyngor Meddygol Cyffredinol**, paragraff 1

[72] **PSOW30 CLlLC**, paragraff 15

[73] **PSOW15 AGGCC**

[74] **PSOW20 Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru**

ysgrifenedig.

**97.** Dywedodd y rhan fwyaf o randdeiliaid a ymatebodd i'n hymgynghoriad ac sy'n derbyn cwynion eu hunain eu bod yn derbyn cwynion llafar.

**98.** Y prif faterion a godwyd oedd y risg y byddai pobl yn dewis y llwybr cwyno llafar oherwydd bod hynny'n gyfleus yn hytrach nag yn angenrheidiol.[75] Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n ymdrin â chwynion yn gweld cwynion fel sbardun allweddol i wella gwasanaethau.

## Eiriolaeth

**99.** Nid yw'r Bil yn ymdrin ag unrhyw faterion yn ymwneud ag eiriolaeth ac roedd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth,[76] Conffederasiwn GIG Cymru,[77] a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru,[78] yn teimlo bod hyn yn hepgoriad.

**100.** Tynnodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru sylw at y ffaith bod deddfwriaeth arall, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, yn rhoi llawer o bwyslais ar eiriolaeth. Roedd yn teimlo bod y Bil hwn yn gyfle arall i gryfhau cymorth eiriolaeth, yn enwedig i'r rhai sy'n cwyno am ofal cymdeithasol, gan y gallant fod yn agored iawn i niwed ac yn ddibynnol iawn ar yr hyn sy'n wasanaeth emosiynol sy'n seiliedig ar berthynas.[79]

**101.** Roedd un o'r ymatebwyr i'r arolwg cyhoeddus yn teimlo bod cyfleuster eiriolaeth i gefnogi pobl na allant gyflwyno cwyn ysgrifenedig yn ddewis gwell na galluogi cyflwyno cwynion llafar.

**102.** Trafodwyd yr angen am ddarpariaethau eiriolaeth yn y Bil gyda'r Ombwdsmon, ond clywsom gan Gyfarwyddwr Polisi, Cyfreithiol a Llywodraethu yr Ombwdsmon nad oeddent yn teimlo bod hyn yn gam angenrheidiol.[80] Cefnogwyd y farn hon gan yr Aelod Cyfrifol (paragraff 114).

---

[75] **PSOW16 Gofal Cymdeithasol Cymru**, paragraff 10

[76] **PSOW 31 Cyngor ar Bopeth**, paragraff 11

[77] **PSOW13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraff 12

[78] **PSOW03 Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol**

[79] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [138-139], 13 Rhagfyr 2017

[80] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [42], 7 Rhagfyr 2017

**103.** Nid oedd Ombwdsmon yr Alban ychwaith yn argyhoeddedig bod angen cynnwys rhagor o fanylion ar wyneb y Bil ynghylch eiriolaeth. Credai y gallai gofyniad o'r fath amharu ar ddarparu gwasanaeth da oherwydd mae'n wasanaeth da.[81] Roedd gan Ombwdsmon Gogledd Iwerddon farn debyg, gan nodi bod hyblygrwydd yn y ddeddfwriaeth eisoes i alluogi unrhyw un i weithredu ar ran yr achwynydd, ac y dylid gadael hynny i'r unigolyn.[82]

## Gwirio cwynion

**104.** Cawsom lawer o dystiolaeth am ymdrin â chwynion llafar, yn arbennig sut i'w gwirio a sicrhau bod y gŵyn yn adlewyrchu'r materion y mae'r achwynydd yn eu codi yn y ffordd orau.

**105.** Dywedodd Gofal Cymdeithasol Cymru y byddai angen rheoli'r broses yn ofalus er mwyn osgoi anghydfodau ynghylch cywirdeb cwynion llafar, pryder a godwyd hefyd gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol.[83] Galwodd Conffederasiwn y GIG hefyd am ganllawiau clir ar gyfer y broses o wirio cwynion.[84][85]

**106.** Cododd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru bryderon ynglŷn â natur benodol adran 8(9):

> "Gellid dadlau bod Cymal 8 (9) yn rhy benodol ac nid yw'n mynd yn ddigon pell ar gyfer dibenion monitro mynediad a chanlyniadau. O bosib, gellid ei aralleirio ar hyd y trywydd, 'Mae'n rhaid i'r Ombwdsmon gynnal cofrestr o'r holl gwynion, y modd y cawsant eu derbyn, a'r canlyniad.' Gallai hyn helpu i fonitro a gwerthuso p'un ai a yw cwynion llafar yn fwy neu'n llai tebygol o fynd ymlaen at ymchwiliad ffurfiol."[86]

**107.** Ymhelaethodd ar hyn, gan nodi y dylai cofrestr o'r fath hefyd gynnwys sut yr ymdriniwyd â'r gŵyn. Roedd o'r farn y byddai hyn yn rhoi sicrwydd bod yr Ombwdsmon yn ymdrin â chwynion yn deg ac yn atal canlyniadau gwyrdröedig

---

[81] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [320], 7 Rhagfyr 2017

[82] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [321], 7 Rhagfyr 2017

[83] **PSOW03 Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol**

[84] **PSOW13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraff 10

[85] **PSOW16 Gofal Cymdeithasol Cymru**, paragraff 12

[86] **PSOW17 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**, paragraff 8.

rhag cael eu cynnwys yn y system yn dibynnu ar sut y daeth y gŵyn i law.[87]

**108.** Nododd Ysgol y Gyfraith Lerpwl fod adrannau 8(4) - (9) o'r Bil yn darparu manylion am ymdrin â chwynion a dderbyniwyd, nad yw wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth gyffelyb yng Ngogledd Iwerddon neu San Steffan.[88]

## 5. 2. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**109.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn fodlon cefnogi'r elfennau hyn o'r Bil. Ymhelaethodd ar y gefnogaeth hon:

> "…the prize is to make sure that people who might otherwise struggle to have their voices heard can do it this way, and I think this is something we would want to see happen."[89]

**110.** Fe wnaethom drafod gydag Ysgrifennydd y Cabinet rai o'r materion a godwyd gan y tystion ynghylch gweithredu'r darpariaethau hyn, gan gynnwys lleihau'r risg y byddai pobl yn gwneud cwynion llafar oherwydd bod hynny'n gyfleus yn hytrach nag yn angenrheidiol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn credu bod camau diogelu digonol yn y Bil.[90]

**111.** Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at broblemau technegol gyda drafftio adran 8(5) sy'n gwahardd yr Ombwdsmon rhag ymchwilio i gŵyn os nad yw'r achwynydd am i'r gŵyn barhau. Dywedodd fod gallu'r Ombwdsmon i ddefnyddio'r pwerau i ymchwilio ar ei liwt ei hun yn ymddangos fel pe bai'n "golygu bod y gwaharddiad yn ddiwerth".[91]

## 5. 3. Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**112.** Fe wnaethom holi'r Aelod Cyfrifol ynghylch gwirio cwynion a rhai o'r materion gweithredol y cyfeiriodd y dystiolaeth atynt. Roedd yr Aelod Cyfrifol yn glir mai diben y Bil yw pennu egwyddorion a phŵer a'i bod yn well gadael penderfyniadau

---

[87] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [134], 13 Rhagfyr 2017

[88] **PSOW25 Ysgol y Gyfraith Lerpwl**, paragraff 2

[89] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion. 196, 15 Ionawr 2018

[90] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 201, 11 Ionawr 2018

[91] **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet at Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**, 15 Ionawr 2018

am brosesau a gweinyddu i swyddfa'r Ombwdsmon.[92] Nododd fod gofynion yn y Bil ar gyfer gwirio ac i'r Ombwdsmon gynhyrchu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion, felly mae'n glir beth yw'r broses.[93]

**113.** Fodd bynnag, addawodd ailedrych ar adran 8(9) i sicrhau bod pob cwyn a dderbynnir yn cael ei chofnodi.[94]

**114.** Pan drafodwyd eiriolaeth gyda'r Aelod Cyfrifol, dywedodd:

> "…the point of advocacy should be at the point of the first complaint. So, it is for the public bodies to whom the complaint is being made initially to provide that advocacy. I'm very clear about that. …So, I don't think it would be appropriate to put advocacy on the face of the Bill as regards the ombudsman.
>
> …there was a slight suggestion in some of the evidence that somehow you get to the ombudsman and then the full advocacy comes—it's much too late to do it, it should happen much earlier in the process."[95]

**115.** Holwyd yr Aelod Cyfrifol ynglŷn â chymorth i bobl wneud cwynion llafar mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg. Dywedodd fod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn amlinellu y bydd yr adran hon o'r Bil yn gwella cydraddoldebau, gan fod y gallu i gyflwyno cwynion llafar yn dileu rhwystr posibl i'r rhai nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg neu Saesneg yn rhugl. Ychwanegodd y byddai'n disgwyl i'r Ombwdsmon gael polisi yn nodi sut i ymdrin â chwynion o'r fath, a gallai hyn fod yn fater y byddai'r Pwyllgor yn dymuno dychwelyd ato yn ei sesiwn graffu flynyddol ar waith yr Ombwdsmon.[96]

## 5. 4. Ein barn ni

**116.** Nodwn fod gan yr Ombwdsmon y pŵer eisoes i dderbyn cwynion llafar, ond gan fod hyn yn ôl disgresiwn deiliad y swydd ar hyn o bryd, nid ydym yn credu ei

---

[92] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [357], 25 Ionawr 2018

[93] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [48], 29 Tachwedd 2017

[94] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [372], 25 Ionawr 2018

[95] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [378-379], 25 Ionawr 2018

[96] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [502-503], 25 Ionawr 2018

fod yn ddigonol. Rydym yn cefnogi ehangu pwerau'r Ombwdsmon i dderbyn cwynion llafar ac yn credu bod y darpariaethau hyn yn gam pwysig ymlaen o ran ehangu mynediad i gyfiawnder. Mae'n bwysig bod aelodau'r cyhoedd yn gallu cael gafael ar wasanaethau'r Ombwdsmon yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w hanghenion. Rydym hefyd yn nodi nad yw'r darpariaethau hyn yn ymwneud â chwynion llafar yn unig, ond bydd yn galluogi'r Ombwdsmon i dderbyn cwynion mewn fformatau eraill wrth i dechnoleg a chymdeithas newid. Rydym yn croesawu'r ffaith bod hyn yn diogelu ar gyfer y dyfodol.

**117.** Er ein bod yn cydnabod y gallai cynnydd yn nifer y cwynion arwain at oblygiadau o ran adnoddau (rydym yn trafod hynny ym Mhennod 11), nid ydym yn credu bod mwy o gwynion yn dod i sylw'r Ombwdsmon yn ddrwg o beth yn ei hanfod. Rydym hefyd yn ymwybodol bod yr Ombwdsmon wedi codi pryderon gyda ni yn ystod y gwaith craffu ar ei adroddiad blynyddol, am y nifer fach o gwynion yn y maes gofal cymdeithasol. Codwyd y pryder hwn hefyd gan eraill (paragraff 51).

**118.** Wrth gefnogi'r darpariaethau yn gyffredinol, credwn fod cyfleoedd i dynhau'r darpariaethau ymhellach. Fel y nodwyd ym mharagraff 105, cododd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru y mater yn ymwneud ag adran 8(9), ac rydym wedi ein hargyhoeddi gan ei hawgrym bod angen diwygio'r ddarpariaeth hon i gwmpasu pob cwyn. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad gan yr Aelod Cyfrifol i ailedrych ar y darpariaethau yn adran 8(9). Rydym hefyd yn nodi'r sylwadau a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru lle y rhoddodd ragor o fanylion am yr hyn y gallai cofrestr o'r fath ei gynnwys (paragraff 106).

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 fel bod adran 8(9) yn rhoi gofyniad ar yr Ombwdsmon i gadw cofrestr o'r holl gwynion a dderbynnir, nid dim ond cwynion llafar yn unig.

**119.** Nodwn fod nifer o faterion a ystyriwyd gennym yn ystod ein gwaith yn ymwneud â materion gweithredol, ac os caiff y Bil ei basio, disgwyliwn i'r Ombwdsmon fyfyrio ar y dystiolaeth a gawsom wrth lunio'r canllawiau ar wneud ac atgyfeirio cwynion llafar.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod yr Ombwdsmon yn myfyrio ar y dystiolaeth a gawsom mewn perthynas â materion gweithredol ynghylch gwneud ac atgyfeirio cwynion ac yn ystyried hyn wrth ddatblygu canllawiau ar wneud cwynion. Y meysydd y credwn y dylai hyn ei gynnwys yw:

- Gwirio cwynion llafar;

- Cyfeirio pobl at wasanaethau eiriolaeth perthnasol; a
- Lleihau'r gost o wneud cwyn.

# 6. Rhan 3 Ymchwiliadau: Materion y caniateir ymchwilio iddynt

## Rydym yn cefnogi'r darpariaethau a fyddai'n galluogi'r Ombwdsmon i ymchwilio i gwynion yn ymwneud â llwybr gofal iechyd cyhoeddus / preifat.

**120.** Mae Adran 10 yn nodi'r materion y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddynt (yn amodol ar eithriadau penodol a nodir yn adrannau 11 i 13). Y newid mwyaf arwyddocaol o'i gymharu â Deddf 2005 yw bod y ddarpariaeth hon yn caniatáu i'r Ombwdsmon ymchwilio i rai materion sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd preifat, sef lle mae claf wedi cael gofal iechyd preifat fel rhan o lwybr gofal cyhoeddus / preifat. Gall y driniaeth breifat ddigwydd ar unrhyw gam o'r llwybr gofal.

**121.** O dan Ddeddf 2005, dim ond cwynion lle mae'r GIG wedi comisiynu gofal iechyd preifat y gall yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt. Byddai'r newidiadau y darperir ar eu cyfer yn y Bil yn caniatáu i gŵyn gael ei hystyried pe bai'r unigolyn wedi comisiynu ei ofal iechyd preifat ei hun, ond bod y gofal wedi cynnwys gofal iechyd preifat a chyhoeddus. Nid yw'r Bil yn rhoi'r pŵer i ymchwilio i ofal preifat yn unig ac mae hyn yn parhau i fod y tu allan i awdurdodaeth yr Ombwdsmon.

**122.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y darpariaethau hyn yn golygu y gall yr Ombwdsmon fod yn fwy ymatebol i'r dinesydd, gan na fydd ei bwerau'n cael ei gyfyngu gan sector na maes penodol.[97]

**123.** Mae Adran 19 yn gwneud darpariaeth i'r Ombwdsmon ofyn fynnu costau gan ddarparwyr gofal iechyd preifat, mewn achosion lle mae'r darparwr gofal iechyd preifat, ym marn yr Ombwdsmon, wedi rhwystro'r Ombwdsmon rhag cyflawni ei ddyletswyddau. Ystyriwn y ddarpariaeth hon o dan Bennod 11.

**124.** Mae Adran 24 yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau rhestredig ystyried adroddiad yr Ombwdsmon ac unrhyw gamau a gymerwyd wedyn gan y darparwr gofal iechyd preifat pan fo awdurdodau'n penderfynu a ddylid ymrwymo i gontract ar gyfer gwasanaethau gyda'r darparwr hwnnw.

[97] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraff 10.9

## 6. 1. Tystiolaeth gan randdeiliaid

**125.** Cefnogwyd yr estyniad hwn i bwerau'r Ombwdsmon i ystyried elfen breifat llwybr gofal iechyd cyhoeddus / preifat gan bawb a roddodd dystiolaeth ar y mater hwn, gan gynnwys Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru, cymdeithas gynrychioliadol darparwyr gofal iechyd annibynnol a Gwasanaeth Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd Annibynnol (ISCAS).

**126.** Un o'r prif resymau a roddwyd dros gefnogi'r ddarpariaeth hon oedd y ffaith bod gwasanaethau cyhoeddus yn newid yn gyson ac yn dod yn fwyfwy integredig. Dywedodd Cyngor ar Bopeth wrthym fod sicrhau bod cwyn yn gallu cael ei datrys yn ddi-dor, hyd yn oed pan fydd yn ymwneud â gwahanol sectorau, yn hanfodol i'r unigolyn dan sylw.[98] Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol wrth i'r gwasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol ddod yn fwy integredig. Tynnwyd sylw at y farn hon gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol,[99] Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru,[100] Conffederasiwn GIG Cymru[101] a'r Coleg Nyrsio Brenhinol hefyd.[102]

**127.** Dywedodd Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru wrthym nad yw cleifion yn deall eu bod wedi croesi amrywiol ffiniau.[103]

**128.** Dywedodd yr Ombwdsmon wrthym fod y system bresennol yn dilyn y sector yn hytrach na'r dinesydd, ac y bu enghreifftiau o achosion nad oedd wedi gallu ymchwilio iddynt.[104] Disgrifiodd achos lle roedd yn rhaid i achwynydd aros pum mlynedd a hanner am ymateb i gwynion ynglŷn â gofal ei gŵr a fu farw. Dywedodd fod yr oedi wedi digwydd oherwydd bod pobl yn cael eu pasio yn ôl ac ymlaen rhwng ymchwiliad cyhoeddus a phreifat. Roedd yn teimlo y byddai'r diwygiad hwn yn sicrhau na fyddai unrhyw oedi annerbyniol yn digwydd yn y dyfodol.[105]

**129.** Ar wahân i'r ddarpariaeth ar gyfer adennill costau, yr ydym yn ei thrafod ym

[98] **PSOW31 Cyngor ar Bopeth**, paragraff 19

[99] **PSOW24 Y Cyngor Meddygol Cyffredinol**, paragraffau 6-7

[100] **PSOW17 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**, paragraffau 9-10.

[101] **PSOW 13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraff 24

[102] **PSOW 22 Coleg Brenhinol y Nyrsys**, paragraff 3

[103] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [444], 7 Rhagfyr 2017

[104] Y sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol yw y gall yr Ombwdsmon ymchwilio i ofal yn y sector iechyd preifat a gomisiynwyd gan y GIG, ond nid gofal sydd wedi'i gomisiynu gan unigolyn. Byddai'r Bil yn dileu'r cyfyngiad hwn, ar yr amod bod y llwybr gofal yn cynnwys elfen gyhoeddus.

[105] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [56], 7 Rhagfyr 2017

Mhennod 11, yr unig fater arall a godwyd mewn perthynas â'r darpariaethau hyn oedd y cosbau sydd ar gael i'r Ombwdsmon os nad yw darparwr gofal iechyd preifat yn gweithredu ar argymhellion sy'n deillio o ymchwiliad. Codwyd hyn gan Gonffederasiwn GIG Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig[106] ac roedd yn fater a ystyriwyd yn ein sesiynau tystiolaeth lafar. Dywedodd Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru wrthym:

> "I can't see how the ombudsman could require a sanction that doesn't align with something with Healthcare Inspectorate Wales, because they are the regulator of the hospital.....So, as long as it was in line with the regulator, I think that would be reasonable."[107]

**130.** Dywedodd Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru wrthym y byddai'n fodlon ar ddarpariaethau a oedd yn cyd-fynd â'r rhai ar gyfer y GIG. Roedd hefyd yn hyderus y byddai ei haelodau yn cymryd y camau gweithredu a fyddai'n ofynnol gan adroddiad yr Ombwdsmon.[108]

## 6. 2. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**131.** Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn fodlon ar y darpariaethau hyn.[109] Rydym yn trafod cynigion y Llywodraeth o ran adennill costau ym Mhennod 11.

## 6. 3. Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**132.** Eglurodd yr Aelod Cyfrifol fod y pwerau hyn yn gyfyngedig iawn, ac y byddent ond yn cwmpasu nifer fach o achosion, ond byddai'n caniatáu i'r gŵyn gael ei deall yn ei chyfanrwydd.[110] Dywedodd wrthym fod hyn yn ymwneud â chau bwlch amlwg yn hytrach nag estyniad sylweddol o bwerau'r Ombwdsmon.[111]

**133.** Pan wnaethom drafod y mater o orfodi darparwr gofal iechyd preifat i

---

[106] **PSOW 13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraff 26

[107] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [483], 7 Rhagfyr 2017

[108] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [485-488], 7 Rhagfyr 2017

[109] **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau mewn perthynas â Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**, 20 Rhagfyr 2017

[110] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [55-57], 29 Tachwedd 2017

[111] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [93], 29 Tachwedd 2017

weithredu argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon, roedd yr Aelod Cyfrifol yn glir na all yr Ombwdsmon ofyn i ddarparwr preifat gymryd camau penodol. Fodd bynnag, dywedodd wrthym y byddai gan unrhyw adroddiad o'r fath:

> "a potential reputational risk for the private healthcare provider, but also, of course, it would be information of great use to anyone considering commissioning that private healthcare provider."[112]

**134.** Dywedodd mai cymhelliad hanfodol i ddarparwyr gofal iechyd preifat fydd y berthynas barhaus gyda'r corff yn y sector cyhoeddus sy'n comisiynu eu gwasanaethau. Fe'i disgrifiodd fel system enwi a chodi cywilydd.[113]

## 6. 4. Ein barn ni

**135.** Rydym yn cefnogi'r darpariaethau sy'n ymwneud ag ymestyn pŵer yr Ombwdsmon i ymchwilio i elfen gofal iechyd preifat llwybr gofal iechyd cyhoeddus / preifat. Rydym yn cytuno â'r rhanddeiliaid a'r Aelod Cyfrifol, y bydd hyn yn galluogi'r Ombwdsmon i ystyried pob rhan o gwyn, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd achwynwyr yn y dyfodol yn aros am gyfnodau hir, blynyddoedd mewn rhai achosion, am atebion a chyfiawnder.

**136.** Rydym yn derbyn mai'r gyfundrefn gosbi fel yr amlinellir yn y Bil yw'r ffordd fwyaf ymarferol o geisio sicrhau bod darparwyr gofal iechyd preifat yn cymryd camau a argymhellir gan yr Ombwdsmon.

---

[112] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [76], 29 Tachwedd 2017

[113] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [431], 25 Ionawr 2018

# 7. Rhan 4 Awdurdodau rhestredig: Gweithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion

## Mae'r Bil yn rhoi pwerau newydd i'r Ombwdsmon osod safonau a hyrwyddo arferion da wrth ymdrin â chwynion. Er ein bod yn cydnabod bod angen gwelliannau, rydym yn cefnogi'r bwriad polisi sy'n sail i'r darpariaethau hyn.

**137.** Yn Rhan 4 o'r Bil cyflwynir pwerau i'r Ombwdsmon bennu gweithdrefnau ymdrin â chwynion ar gyfer awdurdodau rhestredig. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod polisi cwynion enghreifftiol eisoes yn bodoli yng Nghymru i helpu i sicrhau cysondeb ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.[114] Fodd bynnag, trefniant gwirfoddol yw mabwysiadu'r model ac mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod hyn yn anghyson ar draws y sector cyhoeddus.[115]

**138.** Mae'r Bil yn ceisio cyflwyno pwerau a dyletswyddau newydd i'r Ombwdsmon mewn perthynas ag ymdrin â chwynion gan gynnwys:

- cyhoeddi datganiad o egwyddorion ynghylch gweithdrefnau ymdrin â chwynion;
- cyhoeddi gweithdrefn enghreifftiol o ran ymdrin â chwynion ar gyfer awdurdodau rhestredig;
- gosod gofynion ar awdurdodau rhestredig mewn perthynas ag ymdrin â chwynion, gan gynnwys nodi pa awdurdodau sy'n berthnasol, pa rai y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio, a cheisiadau am wybodaeth gan yr awdurdodau.

**139.** Mae Rhan 4 hefyd yn gosod dyletswyddau ar yr Ombwdsmon i hyrwyddo, monitro a rhannu arferion gorau mewn perthynas ag ymdrin â chwynion.

**140.** Mae Adran 41 yn caniatáu hyblygrwydd i awdurdodau rhestredig fel nad oes angen iddynt gydymffurfio â gweithdrefn ymdrin â chwynion enghreifftiol newydd os canfyddir ei bod yn anghydnaws ag unrhyw ddeddfiad presennol.

**141.** Roedd lefelau amrywiol o gefnogaeth yn y dystiolaeth ar gyfer Rhan 4 o'r Bil.

---

[114] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraff 3.47
[115] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraff 3.47

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r darpariaethau i'r Ombwdsmon gael y pŵer i bennu gweithdrefnau ymdrin â chwynion. Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol gyda'r darpariaethau ond roedd ganddynt bryderon penodol y byddent yn hoffi eu gweld yn cael eu datrys neu gael eglurhad ohonynt.

**142.** Roedd Conffederasiwn y GIG yn anghytuno â'r darpariaethau yn Rhan 4, gan nodi bod gan y sector iechyd weithdrefn bresennol ar gyfer ymdrin â chwynion mewnol, sef Gweithio i Wella, sydd wedi bwrw gwreiddiau yn y GIG yng Nghymru ers sawl blwyddyn.

## 7. 1. Gweithredu gweithdrefnau ymdrin â chwynion mewn gwledydd datganoledig eraill

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**143.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y darpariaethau mewn perthynas ag ymdrin â chwynion yn debyg i'r dull sydd eisoes wedi'i sefydlu yn yr Alban.[116] Mae Ombwdsmon yr Alban eisoes yn gweithredu fel Awdurdod Safonau Cwynion, ac mae gweithdrefn enghreifftiol ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion enghreifftiol. Mae gan Ombwdsmon Gogledd Iwerddon y pwerau i bennu safonau ymdrin â chwynion ar draws gwasanaethau cyhoeddus, er na fydd y pwerau hyn yn cychwyn tan i Weithrediaeth a Chynulliad Gogledd Iwerddon gael eu hadfer.

**144.** Roedd Ombwdsmon yr Alban ac Ombwdsmon Gogledd Iwerddon yn cefnogi darpariaethau'r Bil mewn perthynas â gweithdrefnau ymdrin â chwynion. Dywedodd Ombwdsmon Gogledd Iwerddon wrthym y gall absenoldeb gweithdrefnau ymdrin â chwynion statudol arwain at ddryswch ymysg y cyhoedd:

> "The health and social care procedure is the only statutory complaints-handling procedure in Northern Ireland, and it is a single-stage procedure… there are three-stage complaints in relation to planning… there are multiple stages in the housing executive and the housing associations' complaint processes. What did our research tell us? That the public were confused."[117]

[116] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraff 3.50

[117] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [355], 7 Rhagfyr 2017

**145.** Nododd Ombwdsman yr Alban y newidiadau cadarnhaol ers i'r pwerau gael eu cyflwyno yn yr Alban. Mae wedi gweld tystiolaeth o fwy o gysondeb[118] a gwell deialog[119] ar draws gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â ffynhonnell ddata gyfoethog iawn a fydd yn ychwanegu llawer mwy o werth i wella'r sector cyhoeddus a gwelliannau i unigolion.[120]

**146.** Nododd y dystiolaeth gan Ombwdsmon yr Alban mai nod yr Awdurdod Safonau Cwynion yn ymarferol yw:

- "to drive improvement through improved complaints handling
- work closely with public bodies to standardise and simplify complaints handling procedures
- promote greater consistency, and resolution at the first point of contact, wherever possible."[121]

**147.** Mae model yr Alban yn seiliedig ar ymgynghori helaeth gyda'r sectorau o fewn awdurdodaeth yr Awdurdod Safonau Cwynion. Dywedodd Ombwdsmon yr Alban wrthym fod y model sylfaenol wedi'i addasu ar gyfer pob sector, a'i fod yn gweithio'n agos iawn gyda llywodraeth leol a chyrff iechyd wrth ei ddatblygu.[122]

**148.** Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod wedi cymryd rhan yn ddiweddar mewn ymgyngoriadau ar safon newydd o Weithdrefn Ymdrin â Chwynion y GIG. Dywedodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol wrthym hefyd ei fod yn gobeithio "sicrhau bod y mewnbwn hwn hefyd yn bresennol mewn unrhyw gam a gymerai'r Ombwdsmon yn y dyfodol".[123]

**149.** Ymddengys fod dull yr Alban yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd, gan fod chwech o weithdrefnau enghreifftiol yn gweithredu ar gyfer:

- awdurdodau lleol

---

[118] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [363], 7 Rhagfyr 2017

[119] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [374], 7 Rhagfyr 2017

[120] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [375], 7 Rhagfyr 2017

[121] **PSOW08, Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban**, paragraffau 5-7

[122] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [363], 7 Rhagfyr 2017

[123] **PSOW24 Y Cyngor Meddygol Cyffredinol**, paragraff 10

- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig;
- Llywodraeth yr Alban, senedd yr Alban ac awdurdodau cyhoeddus cysylltiedig;
- addysg bellach ac uwch;
- gwaith cymdeithasol; a
- y GIG[124]

**150.** Yn ei dystiolaeth, cyfeiriodd yr Ombwdsmon yn rheolaidd at y model ymdrin â chwynion presennol yn yr Alban a'i werthusiad cadarnhaol, ac yn ei farn ef:

> "…this is an opportunity to make sure that the next area that would have a complaints standards authority would be Wales, and that we could do something really good here south of Hadrian's Wall."[125]

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**151.** Ni chymerwyd unrhyw dystiolaeth gennym gan Lywodraeth Cymru ar weithrediad darpariaethau tebyg mewn gwledydd datganoledig eraill.

## Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**152.** Dywedodd yr Aelod Cyfrifol wrthym fod y Bil "yn ailadrodd darpariaethau ymdrin â chwynion Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban 2002, sydd wedi gweithio'n dda".[126]

## Ein barn ni

**153.** Roedd y dystiolaeth a glywsom gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon ar y cynigion ar gyfer ymdrin â chwynion yn gymhellol. Hoffem weld yr Ombwdsmon yn dilyn y model sydd wedi llwyddo yn yr Alban, gan sicrhau cydweithio ac ymgynghori â'r sector.

---

[124] **PSOW08, Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban**, paragraff 15

[125] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [89], 7 Rhagfyr 2017

[126] **Llythyr gan yr Aelod Cyfrifol at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**, 10 Ionawr 2018

**154.** Rydym felly'n cefnogi'r cynigion yn y Bil i'r Ombwdsmon bennu gweithdrefnau a safonau ar gyfer ymdrin â chwynion.

## 7. 2. Sut y gellid gwella'r model ymdrin â chwynion presennol

**155.** Noda Memorandwm Esboniadol y Bil[127] fod y polisi cwynion enghreifftiol presennol yn drefniant gwirfoddol, ac "nad yw'r polisi'n cael ei fabwysiadu'n gyson ar draws y sector".[128] Nod y Bil yw "sicrhau cysondeb ym mhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus"[129] yn ogystal â darparu "data rheolaidd, dibynadwy a chymaradwy" ar gwynion ar draws y sector cyhoeddus er mwyn hyrwyddo atebolrwydd a sicrhau tryloywder wrth gyflwyno adroddiadau.[130]

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**156.** Dywedodd yr Ombwdsmon presennol fod y cynigion yn anelu at alluogi'r rôl i fod yn agored, yn dryloyw,[131] ac i godi safonau.[132]

**157.** Fel y soniwyd yn flaenorol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid y cynnig i newid y ffordd y mae gweithdrefnau ymdrin â chwynion yn gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus. Rhoddodd sawl ymatebydd dystiolaeth ar y ffyrdd presennol o weithio, gan gynnwys y model cwynion gwirfoddol.

**158.** Roedd yr arolygiaethau iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)[133], Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)[134] a sefydliadau eraill yn y sector gofal iechyd, gan gynnwys y Coleg Nyrsio Brenhinol[135] a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol[136] oll yn cefnogi'r darpariaethau.

**159.** Mae rhanddeiliaid eraill a oedd yn gwbl gefnogol i'r darpariaethau yn cynnwys Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn, Swyddfa Archwilio Cymru a

---

[127] **Y Memorandwm Esboniadol**

[128] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraff 3.47

[129] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraff 3.47

[130] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraff 3.50

[131] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [78], 7 Rhagfyr 2017

[132] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [80], 7 Rhagfyr 2017

[133] **PSOW15, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**

[134] **PSOW17 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**, paragraff 12

[135] **PSOW 22 Y Coleg Nyrsio Brenhinol**

[136] **PSOW24 Y Cyngor Meddygol Cyffredinol**, paragraff 8

Cyngor ar Bopeth. Yn ei dystiolaeth, tynnodd y Coleg Nyrsio Brenhinol sylw at y ffaith bod 38% o gwynion am wasanaethau cyhoeddus yn gysylltiedig ag iechyd, ac felly roedd yn croesawu'r cyfle i wella ymatebion a phrosesau.[137] Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol nad yw'r model gwirfoddol presennol ar gyfer ymdrin â chwynion yn ddigonol:

> "Mae'r sefyllfa bresennol yng Nghymru o fabwysiadu'r model cwynion yn wirfoddol ar draws y sector cyhoeddus wedi methu â chyflawni cysondeb ar draws y sector cyhoeddus, a byddai ateb hyn yn cynyddu'r potensial ar gyfer dysgu a gwelliannau mewn trin cwynion."[138]

**160.** Gwelodd sawl rhanddeiliad hyn fel cyfle i wella'r llwybr cwynion i aelodau'r cyhoedd drwy wella cysondeb wrth ymdrin â chwynion ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Dywedodd AGIC wrthym fod rhoi rôl i'r Ombwdsmon o oruchwylio'r broses o ymdrin â chwynion, fel y cynigir yn y Bil, "er budd pennaf i'r cyhoedd",[139] er mwyn sicrhau cysondeb.

**161.** Roedd CLlLC yn gefnogol iawn i'r darpariaethau ar y cyfan, ond dywedodd wrthym fod ganddi rai amheuon. Dywedodd fod y model gwirfoddol wedi gwella cysondeb a lleihau biwrocratiaeth, ac ar y cyd â gwaith swyddfa'r Ombwdsmon, wedi annog datrys cwynion yn gynnar.[140] Dywedodd hefyd, fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y byddai'n fuddiol adolygu'r model presennol, gwirfoddol, oherwydd datblygiadau yn y maes ymdrin â chwynion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys y defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol.[141]

**162.** Hefyd, roedd Cyngor ar Bopeth yn gweld y darpariaethau fel cyfle i wella profiad y cwsmer. Nodwyd ei bod yn bwysig ystyried y broses gwyno o safbwynt yr achwynydd, er mwyn sicrhau bod y broses mor syml â phosibl.[142] Dywedodd rhanddeiliaid o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol wrthym, oherwydd y gweithdrefnau cwyno gwahanol rhwng cyrff gwahanol, y gellid ymdrin ag un gŵyn gan ddefnyddio gweithdrefnau gwahanol pe bai'n cynnwys llwybrau iechyd a gofal cymdeithasol, a allai arwain at rwystredigaeth i'r achwynydd. Dywedodd:

---

[137] **PSOW 22 Y Coleg Nyrsio Brenhinol**

[138] **PSOW24 Y Cyngor Meddygol Cyffredinol**, paragraff 9

[139] **PSOW 17 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**, paragraff 14.

[140] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [97], 11 Ionawr 2018

[141] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [133], 11 Ionawr 2018

[142] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [79], 11 Ionawr 2018

> "… we need to think about this from the perspective of the individual who wants to make the complaint…They shouldn't have to think before they complain, 'Exactly who is it I'm complaining about?' or 'Which body is providing which bit of the care? I'm simply dissatisfied'."[143]

**163.** Dadleuodd yr Ombwdsmon presennol mai prif nod y darpariaethau yw:

> "…gwella sut caiff cwynion eu trin er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trin yn symlach, yn fwy effeithiol ac yn fwy cyson, a'u bod yn cael eu datrys ar y pwynt cyswllt cyntaf, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl."[144]

**164.** Roedd AGIC yn cytuno y byddai o fudd i gwynion gael eu datrys yn y man cyswllt cyntaf, yn hytrach na chael eu hatgyfeirio i swyddfa'r Ombwdsmon oherwydd methiant i'w datrys. Dywedodd wrthym, os yw unigolyn yn teimlo bod yn rhaid iddo fynd â'i gŵyn at yr Ombwdsmon, mae'n debygol o deimlo'n fwy rhwystredig ac anfodlon ar fethiant y gwasanaeth cychwynnol i ddatrys ei gŵyn.[145]

**165.** Roedd y rhanddeiliaid a oedd yn cefnogi'r darpariaethau hefyd yn croesawu'r cyfle i wella eu data a sylfaen y dystiolaeth er mwyn helpu i godi safonau gweithdrefnau ymdrin â chwynion ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Nododd Ombwdsmon yr Alban, ers sefydlu'r Awdurdod Safonau Cwynion, ei fod yn gallu deall yn well y dirwedd cwynion[146] o ganlyniad i'r gofynion casglu data ar wasanaethau cyhoeddus.

**166.** Nododd CLlLC fod y cynigion ar gyfer casglu data yn anelu at hyrwyddo arferion da,[147] a byddai'n galluogi dadansoddi tueddiadau'n ymwneud â chwynion yn genedlaethol.

**167.** Er bod y cynigion yn y Bil ar gyfer ymdrin â chwynion yn berthnasol i awdurdodau rhestredig yn unig, clywsom dystiolaeth a oedd yn cefnogi hynny gan gyrff yn y sector gofal iechyd preifat, gan gynnwys Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru ac ISCAS. Dywedodd Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru wrthym fod cwynion yn aml yn cael eu gwneud ynghylch y broses ymdrin

---

[143] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [186], 13 Rhagfyr 2017

[144] **PSOW09, Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**, 2.3(a)

[145] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [186], 13 Rhagfyr 2017

[146] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [363], 7 Rhagfyr 2017

[147] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [83], 11 Ionawr 2018

â chwynion ei hun yn y sector preifat, ac felly maent yn ystyried bod y darpariaethau'n fenter dda.[148] Adleisiodd ISCAS y farn hon.[149]

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**168.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod gan Lywodraeth Cymru feddwl agored[150] ynghylch y darpariaethau ar weithdrefn enghreifftiol o ymdrin â chwynion. Nododd fod modelau cyfredol yn galluogi awdurdodau rhestredig i sefydlu eu gweithdrefnau ymdrin â chwynion eu hunain, cyhyd â'u bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau a bennir gan y ddeddfwrfa:

> "… y cyrff iechyd a'r awdurdodau lleol eu hunain ddylai sefydlu gweithdrefnau cwyno. Yn y sector gofal cymdeithasol, gall pob awdurdod lleol wneud cynllun ei hun, ond rhaid iddo gydymffurfio â'r Rheoliadau.[151]

## Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**169.** Dywedodd yr Aelod Cyfrifol, wrthym mai "gwneud yn siŵr bod yna gysondeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru"[152] yw un o'r rhesymau allweddol dros y darpariaethau mewn perthynas â'r model ymdrin â chwynion. Dywedodd fod:

> "… safonau ar gyfer y ffordd mae cwynion yn cael eu delio gyda nhw a'u hateb y tu mewn i wasanaethau cyhoeddus—so codi, os liciwch chi, yr ymwybyddiaeth o'r gyfundrefn ar gyfer delio gyda chwynion."[153]

## Ein barn ni

**170.** Teimlwn fod y gofynion ychwanegol ar awdurdodau rhestredig yn y Bil i weithredu yn unol â'r gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion yn gymesur â'r manteision canfyddedig. Dangosodd y dystiolaeth yr anghysondeb o ran y ffordd y mae awdurdodau rhestredig yn ymdrin â chwynion a'r effaith

---

[148] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [490], 13 Rhagfyr 2017

[149] **PSOW 23 Gwasanaeth Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd Annibynnol**, paragraff 12

[150] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [175], 11 Ionawr 2018

[151] **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet at Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**, 15 Ionawr 2018

[152] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [10], 29 Tachwedd 2017

[153] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [10], 29 Tachwedd 2017

negyddol ar unigolion sy'n gwneud cwynion.

**171.** Rydym felly'n cefnogi'r cynigion yn y Bil a'r amcan cyffredinol i sicrhau mwy o gysondeb o ran ymdrin â chwynion rhwng awdurdodau rhestredig. Yn ein barn ni, bydd hyn yn arwain at well cyfiawnder a datrysiad cynharach i achwynwyr, ac o ganlyniad, bydd llai o gwynion yn cael eu cyflwyno i awdurdodau rhestredig ac i swyddfa'r Ombwdsmon yn gyffredinol.

## 7. 3. Effaith y Bil ar weithdrefnau ymdrin â chwynion sy'n bodoli eisoes

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**172.** Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, nid oedd pob rhanddeiliad yn cefnogi'r darpariaethau mewn perthynas â gweithdrefnau ymdrin â chwynion.

**173.** Fel y nodwyd gan y Coleg Nyrsio Brenhinol ym mharagraff 159, mae cyfran fawr o gwynion am wasanaethau cyhoeddus yn ymwneud â gofal iechyd. Mae gan y GIG weithdrefn ymdrin â chwynion, Gweithio i Wella, sydd wedi bod ar waith ers 2011. Mae'r weithdrefn yn deillio o egwyddorion **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011**, y mae'n rhaid i holl gyrff y GIG gadw ato. Mae Llywodraeth Cymru a'r arolygiaethau gofal iechyd perthnasol yn monitro cydymffurfio â'r rheoliadau.

**174.** Er bod Conffederasiwn y GIG yn cydnabod y byddai'r Ombwdsmon yn dymuno rhannu arbenigedd[154] ar safonau ymdrin â chwynion, dywedodd wrthym ei bod yn anodd gweld budd cael gofynion ychwanegol gan yr Ombwdsmon yn yr maes hwn.[155] Mynegwyd pryder nad yw'r Bil yn cyfeirio at "Gweithio i Wella"[156] ac mae potensial ar gyfer gwrthdaro ag unrhyw weithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion y bydd yr Ombwdsmon yn ei sefydlu. I oresgyn hyn, argymhellodd:

> "…an impact assessment on the new Bill and the current Putting Things Right Regulations, including the financial and staff resources which could affect Health Boards and Trusts, to ensure that any unintended consequences or conflict between the Regulations are addressed before the Bill becomes an Act."[157]

[154] **PSOW13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraff 28
[155] **PSOW13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraff 29
[156] **PSOW13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraff 28
[157] **PSOW13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraff 36

**175.** Awgyrmodd y gallai model ymdrin â chwynion sy'n deillio o ddarpariaethau'r Bil wella Gweithio i Wella ond yn sicr nid ei ddisodli, oherwydd ei fod wedi'i ymgorffori ym mhopeth a wnânt.[158]

**176.** Amlygodd y GIG lwyddiannau "Gweithio i Wella". Mae hyn yn cynnwys data a fydd yn galluogi staff i gymharu a nodi themâu a oedd yn deillio o gwynion a wnaed.[159] Creu setiau data cyson yw un o'r dadleuon allweddol a wneir o blaid y darpariaethau hyn.

**177.** Dywedodd wrthym fod "Gweithio i Wella" wedi arwain at arbed llawer o arian cyhoeddus[160] gan yr ymdrinnir ag achwynwyr o dan y rheoliadau unioni. Tynnwyd sylw at y ffaith bod lleiafrif o gwynion yn cael eu cyfeirio y tu hwnt i'r gwasanaeth cyhoeddus perthnasol at swyddfa'r Ombwdsmon.[161]

**178.** Yn olaf, teimlai Conffederasiwn GIG Cymru y dylai unrhyw arweiniad ar safoni gweithdrefnau cwyno ddod o du Llywodraeth Cymru yn hytrach na'r Ombwdsmon.[162]

**179.** Mewn gwrthgyferbyniad â'r uchod, dywedodd Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru wrthym ei fod yn cefnogi:

> "…the promotion of best practice in complaints handing and agree that the Ombudsman is best placed to take this role."[163]

**180.** Fodd bynnag, dywedodd Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru y gallai fod yn broblem pe bai "Gweithio i Wella" yn parhau i fod yn fodel ymdrin â chwynion ar gyfer cyrff y GIG, ond y byddai'n ofynnol i gyrff gofal iechyd eraill ddilyn model newydd wedi'i bennu gan yr Ombwdsmon.

**181.** Ymatebodd yr Ombwdsmon i farn Conffederasiwn GIG Cymru a dywedodd mewn perthynas â'r weithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion:

> "…this isn't about overriding the 'Putting Things Right' regulation. I don't

[158] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [207], 7 Rhagfyr 2017

[159] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [205], 7 Rhagfyr 2017

[160] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [227], 7 Rhagfyr 2017

[161] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [206], 7 Rhagfyr 2017

[162] **PSOW13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraff 28

[163] **PSOW20 Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru**

> know if some of this is a fear factor, really, coming from the NHS…we've had instances…where the 'Putting Things Right' regulations are not the problem—compliance with those regulations is the problem."[164]

**182.** Hefyd, cododd Cyngor Caerdydd bryderon ynghylch y darpariaethau gan dynnu sylw at y risg y gallai canllawiau'r Ombwdsmon fod yn rhy ragnodol a pheidio â rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ymdrin â chwynion ac ymchwilio iddynt mewn modd sy'n briodol ar gyfer eu maint a'u strwythurau.[165]

**183.** Dywedodd wrthym, yn wahanol i awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, fod gan Gaerdydd broses gwyno un haen ac felly roedd ganddo amheuon ynglŷn mabwysiadu un dull a fyddai'n addas i bawb o ganlyniad i'r Bil. Dadleuodd y gallai hyn arwain at gostau ychwanegol a gofynion o ran adnoddau.[166]

**184.** Er ei bod yn ymddangos fel pe bai'n cefnogi'r cynigion yn gyffredinol, roedd gan CLlLC farn debyg i Gyngor Caerdydd, a dywedodd wrthym ei bod yn betrus ynghylch y risg o fod yn rhagnodol a chyflwyno biwrocratiaeth.[167] Fodd bynnag, nododd nad oedd y cynigion mewn perthynas â chasglu data yn ymddangos yn rhy broblematig gan fod data ar gael eisoes y mae awdurdodau a chyrff eraill yn adrodd arnynt.[168]

**185.** Er ei fod yn cefnogi'r darpariaethau yn gyffredinol, gofynnodd Gofal Cymdeithasol Cymru am eglurder ynghylch adran 38(1) a chydymffurfiaeth â'r weithdrefn ymdrin â chwynion:

> "We would welcome information about whether, under section 38(1), the Ombudsman will be able to draw attention to approved non-compliance, where an organisation has relied on sections 41(1)(b) or section 37(4) to obtain consent to deviate from the model complaints handling procedure."[169]

[164] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [84], 7 Rhagfyr 2017

[165] **PSOW 21 Cyngor Caerdydd**

[166] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [86], 11 Ionawr 2018

[167] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [82], 11 Ionawr 2018

[168] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [83], 11 Ionawr 2018

[169] **PSOW16 Gofal Cymdeithasol Cymru**, paragraff 16

**186.** Dywedodd y gallai darparu eglurder ar y darpariaethau hyn helpu sefydliadau i osgoi honiadau o beidio â chydymffurfio.

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**187.** Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 167, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wrthym fod ganddo feddwl agored o ran y darpariaethau hyn ac y byddai'n croesawu ein barn.

**188.** Fodd bynnag, dywedodd wrthym fod y ffordd y mae'r Bil yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd yn achosi pryder oherwydd y posibilrwydd bod y darpariaethau'n galluogi'r Ombwdsmon i fynd yn groes i'r egwyddorion y mae'r ddeddfwrfa wedi eu gosod.[170]

**189.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd wrthym fod ganddo bryderon penodol ynghylch y modd y mae darpariaethau'r Bil wedi cael eu drafftio, mewn perthynas â gweithdrefnau presennol i ymdrin â chwynion, megis "Gweithio i Wella":

> "I think you could read the Bill as allowing the ombudsman to set out a set of principles that contradicted the principles that the National Assembly for Wales had legislated for, and then, having set out the principles, the Bill allows the ombudsman to turn those principles into a complaints-handling procedure for, in this case, the health service, and then to require the health service to adopt the complaints-handling procedure that he has developed."[171]

**190.** At hynny, tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at y ffaith fod adran 40 o'r Bil yn rhoi'r cyfrifoldeb ar yr awdurdod rhestredig i ddarganfod a yw ei weithdrefnau presennol yn anghyson â'r ddeddfwriaeth. Dywedodd mai dewis Llywodraeth Cymru fyddai sefyllfa lle nad oedd yn anghyson yn y lle cyntaf.[172] Mynegwyd barn debyg gan Gofal Cymdeithasol Cymru (paragraff 184).

[170] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [178], 11 Ionawr 2018

[171] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [176-177], 25 Ionawr 2018

[172] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [219], 11 Ionawr 2018

## Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**191.** Dywedodd yr Aelod Cyfrifol:

> "Mae Adran 41(1)(b) o'r Bil yn egluro os yw awdurdod rhestredig yn ddarostyngedig i weithdrefn statudol ar gyfer ymdrin â chwynion, nid oes rhaid i'r awdurdod rhestredig gydymffurfio â gweithdrefn enghreifftiol yr Ombwdsmon ar gyfer ymdrin â chwynion ac nid oes yn rhaid iddo gydymffurfio â datganiad yr Ombwdsmon o egwyddorion, i'r graddau bod y dyletswyddau hynny i gydymffurfio yn anghyson â'r weithdrefn statudol. Felly, bydd yn rhaid i awdurdodau rhestredig ystyried unrhyw weithdrefn statudol sy'n gymwys iddynt a'i chymharu â gweithdrefn enghreifftiol yr Ombwdsmon ar gyfer ymdrin â chwynion, ac yna dod i benderfyniad am unrhyw anghysonderau."[173]

**192.** Mae hyn yn ymddangos yn gyson â dehongliad Ysgrifennydd y Cabinet o'r darpariaethau h.y. bod y cyfrifoldeb ar yr awdurdod rhestredig i nodi unrhyw anghysonderau â deddfiadau eraill. Fodd bynnag, dywedodd yr Aelod Cyfrifol y dylid osgoi gwrthdaro o'r fath oherwydd y gofyniad yn y Bil i'r Ombwdsmon ymgynghori ag awdurdodau rhestredig cyn sefydlu'r datganiad o egwyddorion a chyhoeddi'r weithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion.[174]

**193.** At hynny, dywedodd yr Aelod Cyfrifol :

> "Ein dehongliad ni o'r rhan yna o'r Bil, gan ein bod ni'n dweud yn glir nad oes modd i'r ombwdsmon weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r ddeddfwriaeth arall, yw bod hynny, yn ei dro, yn cynnwys unrhyw ganllawiau statudol sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth yna... ond ein dehongliad ni o'r Bil, yn gyfreithlon, yw: gan ein bod ni'n dweud yn glir nad oes dim modd i'r ombwdsmon weithredu yn erbyn deddfwriaeth arall, mae hynny'n cynnwys y canllawiau statudol."[175]

**194.** Felly, ymddengys fod yr Aelod yn egluro nad bwriad y Bil yw bod yn drech na'r modelau presennol sy'n deillio o ddeddfwriaeth, megis "Gweithio i Wella".

**195.** Yna dywedodd yr Aelod Cyfrifol wrthym y byddai'n fodlon derbyn ein

[173] **Llythyr gan yr Aelod Cyfrifol at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**, 10 Ionawr 2018

[174] **Llythyr gan yr Aelod Cyfrifol at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**, 10 Ionawr 2018

[175] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [440], 25 Ionawr 2018

hargymhellion i egluro'r rhan hon o'r Bil.[176]

## Ein barn ni

**196.** Rydym yn deall pryderon y rhanddeiliaid ac Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas â'r canllawiau statudol ac anstatudol sydd eisoes ar waith mewn rhai gwasanaethau cyhoeddus. Yr enghraifft benodol a nodwyd yn ein tystiolaeth ni oedd Gweithio i Wella, o fewn y GIG. Rydym yn croesawu'r darpariaethau yn Rhan 4 o'r Bil ac yn credu ei fod yn briodol i'r Ombwdsmon nodi ble y dylid gwneud newidiadau i brosesau a gweithdrefnau cwynion. Pan fo'r Ombwdsmon yn cynnig unrhyw newidiadau i ganllawiau o'r fath, dylai'r sefydliadau perthnasol ystyried y rhain o ddifrif, (a dylent fod yn barod i addasu i wneud newidiadau posibl i'r polisi cyfredol os yw hyn yn briodol). Fodd bynnag, credwn y gallai'r Bil fod yn fwy eglur o ran sut y bydd yr Ombwdsmon yn ystyried gweithdrefnau cwynion sydd â rhai diffygion statudol, ond nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o "ddeddfiadau" yn y Bil. Rydym yn croesawu'r sylwadau gan yr Aelod Cyfrifol nad dyma fwriad y Bil, ac y byddai'n fodlon diwygio geiriad y darpariaethau, er eglurder.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyledus i ganllawiau anstatudol presennol mewn perthynas â gweithdrefnau ymdrin â chwynion.

## 7. 4. Y risg o herio annibyniaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**197.** Pryder arall i randdeiliaid, gan gynnwys Conffederasiwn GIG Cymru, am y darpariaethau ynghylch ymdrin â chwynion oedd y byddai'n peryglu rôl ymchwiliol annibynnol yr Ombwdsmon. Dywedodd wrthym:

> "The more operational and involved the Ombudsman role becomes, there is a risk that it may be seen as less objective when reviewing how a body has implemented that procedure."[177]

**198.** Ym marn y Conffederasiwn, byddai'n well gan y cyhoedd i rôl yr Ombwdsmon barhau i fod ar wahân i unrhyw ymwneud â phennu gweithdrefnau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn cynnal ymddiriedaeth yn

---

[176] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [440], 25 Ionawr 2018

[177] **PSOW13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraff 27

ymchwiliadau'r Ombwdsmon.[178]

**199.** Roedd y tri Ombwdsmon (Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Ombwdsman yr Alban ac Ombwdsmon Gogledd Iwerddon) yn anghytuno â'r farn hon. Dywedodd Ombwdsman yr Alban:

> "…it's the opposite. In practice, it hasn't compromised our independence, partly because the first stage is based on parliamentary-set principles. But what it has done is it has given us a way of opening up a much better dialogue across the public sector, and when you open up a dialogue and you are transparent about what you are doing and why you are doing it, and you have an understanding that, actually, we're all trying to achieve the same things, what it gives us is a good core of a framework around which to work…"[179]

**200.** Ategwyd hyn yn nhystiolaeth yr Ombwdsmon, gan nodi na wnaed unrhyw honiadau ynghylch diffyg annibyniaeth ac na chafwyd unrhyw her i'r system yn yr Alban.[180] Cyfrifoldeb yr Ombwdsmon fydd rheoli unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau a all godi er mwyn osgoi herio ei annibyniaeth. Nodwn fod gan yr Ombwdsmon swyddogion gwella eisoes sy'n gweithio gyda sawl corff cyhoeddus. Yn ystod ein gwaith craffu blynyddol ar waith yr Ombwdsmon nododd ei bod yn bwysig i'r swyddogion gwella:

> "…make sure that that line doesn't get blurred… Don't go native, and don't get sucked in either, so that you're dealing disproportionately with them and with their complaints. I think we've walked that line pretty well, but we're aware of the fact that it's a risk you've got to manage."[181]

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**201.** Ni chymerwyd unrhyw dystiolaeth gennym gan Lywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud ag annibyniaeth yr Ombwdsmon.

---

[178] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [222], 7 Rhagfyr 2017

[179] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [368], 7 Rhagfyr 2017

[180] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [83], 7 Rhagfyr 2017

[181] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [238], 29 Tachwedd 2017

### Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**202.** Ni chymerwyd unrhyw dystiolaeth gennym gan yr Aelod Cyfrifol ar yr agwedd hon ar y darpariaethau.

### Ein barn ni

**203.** Rydym yn deall y pryderon a godwyd gan randdeiliaid ynghylch risg bosibl o gyfaddawdu annibyniaeth yr Ombwdsmon. Byddwn felly yn monitro'r mater hwn os daw'r Bil yn ddeddf, gan gynnwys fel rhan o'n gwaith craffu blynyddol ar waith yr Ombwdsmon.

## 7. 5. Yr heriau o ran gweithredu'r gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer ymdrin â chwynion

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**204.** Amlygodd rhai rhanddeiliaid heriau posibl i gyrff cyhoeddus, yn arbennig cyrff llai sy'n gweithredu gweithdrefn ymdrin â chwynion statudol, newydd. Roedd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn pryderu am effaith y darpariaethau ar sefydliadau bach fel y Comisiwn.[182]

**205.** Roedd gan Gyngor Blaenau Gwent farn debyg, a ddywedodd wrthym:

> "...some smaller Councils do not have sufficient resources to have complaints officers whose sole task is to take and log complaints...There will be an indirect staffing cost to public bodies in providing additional data to the Ombudsman and updating software systems. This is an added financial and staffing requirement at a time when Council budgets are under severe pressure."[183]

**206.** Er gwaetha'r ffaith eu bod yn cefnogi'r darpariaethau hyn, tynnodd Gofal Cymdeithasol Cymru sylw at hyn hefyd. Nododd mai prin yw dealltwriaeth llawer o sefydliadau o reoli cwynion, ac efallai nad oes ganddynt y seilwaith priodol i roi model ymdrin â chwynion ar waith.[184]

**207.** Fodd bynnag, roedd gan Swyddfa Archwilio Cymru farn wahanol, gan ddweud y byddai'n:

---

[182] **PSOW 03 Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol**

[183] **PSOW 07 Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

[184] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [183], 13 Rhagfyr 2017

> "…surprised if there are any public authorities in Wales, other than maybe the odd small community council, that don't have a complaints procedure. Whether they adhere to it or not is another matter."[185]

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**208.** Ni chymerwyd unrhyw dystiolaeth gennym gan Lywodraeth Cymru ar yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r darpariaethau.

## Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**209.** Mewn ymateb i bryderon gan randdeiliaid ynghylch goblygiadau gweithdrefn ymdrin â chwynion statudol ar awdurdodau rhestredig llai. Dywedodd yr Aelod Cyfrifol wrthym:

> "…it's very important that we don't let any public authority, whatever its size, say, 'We're too small to deal with this.' These are requirements that the Assembly has set out. They have to do data collection for regulatory purposes, as well. We're not asking for things that are significantly in advance of that.[186]

**210.** Ategwyd hyn yn nhystiolaeth CLlLC (paragraff 184), a nododd fod casglu data yn ofyniad presennol ar awdurdodau lleol. Dywedodd yr Aelod Cyfrifol fod y dyletswyddau newydd ar awdurdodau rhestredig yn ymwneud ag ymdrin â chwynion. Eglurodd fod y mesurau diogelu yn y Bil yn sicrhau y bydd yr Ombwdsmon yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ar y weithdrefn ymdrin â chwynion, ac felly bydd awdurdodau rhestredig yn cael cyfle i roi barn ar ei gweithrediad.[187]

## Ein barn ni

**211.** Clywsom dystiolaeth ar yr heriau gweithredol posibl i awdurdodau rhestredig yn sgil rhoi gweithdrefnau ymdrin â chwynion ar waith. Byddem yn pwyso ar yr Ombwdsmon i fyfyrio ar y dystiolaeth a amlinellir yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys cydnabod yr heriau i gyrff cyhoeddus llai, wrth ddatblygu eu gweithdrefnau ymdrin â chwynion. Rydym hefyd yn pwyso ar yr Ombwdsmon i ddysgu o'r arferion da sydd i'w gweld yn nhystiolaeth Ombwdsmon

---

[185] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [303], 13 Rhagfyr 2017

[186] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [305], 25 Ionawr 2018

[187] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [305], 25 Ionawr 2018

Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban.

# 8. Rhan 5 Ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â phersonau eraill: Gofal cymdeithasol a gofal lliniarol

Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi pwerau i'r Ombwdsmon ymchwilio i ofal cymdeithasol a gofal lliniarol. Rydym yn cefnogi'r darpariaethau hyn, ond ymchwiliwyd i rai materion technegol ynghylch eu drafftio.

**212.** Mae Deddf 2005 yn darparu cyfundrefn annibynnol ar gyfer ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a gofal lliniarol. Cafodd awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn y maes hwn ei ymestyn gan ddiwygiadau a fewnosodwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**213.** Mae Rhan 5 o'r Bil yn ailddatgan darpariaethau Deddf 2005 yn bennaf, er ei fod yn adlewyrchu'r addasiadau a wnaed i'r gyfundrefn ymchwilio yn Rhan 3, i sicrhau bod y ddwy gyfundrefn yn cyfateb yn fras.

## 8. 1. Tystiolaeth gan randdeiliaid

**214.** Dywedodd rhanddeiliaid wrthym nad oedd yn glir pam nad oedd y gyfundrefn gofal cymdeithasol a lliniarol wedi'i chyfuno â'r gyfundrefn ymchwilio gyffredinol a nodir yn Rhan 2 o'r Ddeddf.[188]

**215.** Dywedodd Hosbis DU y gallai:

> "...be seen as a missed opportunity to improve seamless, integrated provision for complainants. However, Hospice UK, does not, in principle, object to a separate investigatory regime for independent palliative care providers (and social care) if the burden of bureaucracy is placed on the Ombudsman and its officer rather than the complainant....."[189]

**216.** Mynegodd Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru farn debyg, gan ddweud, ar yr amod nad oedd unrhyw wahaniaethau ymarferol o ran sut yr ymdriniwyd ag achwynydd, na fyddent yn rhy bryderus ynghylch cadw'r

---

[188] **PSOW18 Hosbis DU**, paragraffau 4.3.2-4.3.4

[189] **PSOW18 Hosbis DU**, paragraffau 4.3.2-4.3.4

cyfundrefnau yn rhai ar wahân.[190]

**217.** Rhoddodd yr Ombwdsmon sicrwydd inni nad oes gwahaniaeth ar hyn o bryd o ran y gwasanaeth a ddarperir ar gyfer y cwynion hynny yr ymchwilir iddynt o dan y darpariaethau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

> "But as far as the service user is concerned, when they come to us, the investigation process is the same, the reporting outcomes are the same, and so outcomes for the complainant are the same. So, I don't think it makes any practical difference for the complainant."[191]

**218.** Cododd Hosbis DU bryderon fod y diffiniad o ofal lliniarol ar wyneb y Bil yn rhy gul. Gofynnodd a fyddai'r diffiniad yn cwmpasu'r holl hosbisau p'un a ydynt yn derbyn arian cyhoeddus ai peidio. Roedd yn cydnabod ei bod yn bwysig bod rhan o'r diffiniad yn cwmpasu'r ffaith bod sefydliad perthnasol wedi bod yn derbyn arian cyhoeddus ond yn dadlau y gallai hyn olygu na fyddai rhai hosbisau yn cael eu cwmpasu.

> "We want to make sure that everyone who uses independent palliative care provider services can take their concern to the ombudsman, should they need to."[192]

**219.** Ychwanegodd fod y diffiniadau a ddefnyddiwyd yn y Memorandwm Esboniadol, a grewyd gan Sefydliad Iechyd y Byd, a NICE, yn ehangach ac yn cwmpasu dull mwy cyfannol o ymdrin â gofal lliniarol.[193]

## 8. 2. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**220.** Roedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r Rhan hon o'r Bil.[194] Fodd bynnag, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod y

[190] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [492], 7 Rhagfyr 2017

[191] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [92], 7 Rhagfyr 2017

[192] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [53], 13 Rhagfyr 2017

[193] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [53-54], 13 Rhagfyr 2017

[194] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau mewn perthynas â Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 20 Rhagfyr 2017

Llywodraeth yn teimlo bod hyn yn colli cyfle i greu un gyfundrefn ymchwilio.[195]

## 8. 3. Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**221.** Amlinellodd yr Aelod Cyfrifol pam nad oedd y ddwy gyfundrefn ymchwilio wedi cael eu cyfuno:

- Amharodrwydd i newid penderfyniad diweddar a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol. Dywedodd fod y Cynulliad, yn 2014, wedi penderfynu ychwanegu'r darpariaethau hyn mewn ffordd benodol, a theimlwyd ei bod yn well diogelu penderfyniad mor ddiweddar; a
- Byddai materion yn ymwneud â drafftio i ymgorffori'r ddwy gyfundrefn yn un gyfundrefn wedi arwain at ddarn o ddeddfwriaeth a fyddai'n dechnegol gymhleth.[196]

**222.** Amlinellodd yr Aelod Cyfrifol yn fanwl rai o'r cymhlethdodau penodol a fyddai wedi deillio o ymgais i uno'r ddwy gyfundrefn ymchwilio.[197]

**223.** Nododd yr Aelod Cyfrifol nad oedd Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar y cyfle i uno'r ddwy gyfundrefn wrth ddrafftio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ychwanegodd:

> "…wrth lunio'r Bil yma, fe wnaethom ni fynd yn benodol at gyfreithwyr arbenigol y Llywodraeth a gofyn iddyn nhw a oedden nhw'n moyn i ni gymryd y rhan yma o Ddeddf 2014 a'i ysgrifennu fe i mewn i'r Bil, yn y ffordd sydd wedi cael ei awgrymu fel missed opportunity.  Bryd hynny, cyngor cyfreithwyr y Llywodraeth oedd peidio â gwneud hynny."[198]

## 8. 4. Ein barn ni

**224.** Rydym yn cytuno â barn y rhanddeiliaid ac Ysgrifennydd y Cabinet bod cyfle wedi'i golli yma i uno'r ddwy gyfundrefn ymchwilio. Rydym yn nodi tystiolaeth yr Aelod Cyfrifol nad oedd Llywodraeth Cymru wedi uno'r ddwy gyfundrefn yn 2014 (paragraff 222). Nid ydym yn galw ar iddynt gael eu huno oherwydd cawsom

---

[195] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [210], 11 Ionawr 2018

[196] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [109-110], 29 Tachwedd 2017

[197] **Llythyr gan Simon Thomas AC mewn perthynas â Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)**, 10 Ionawr 2018

[198] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [449], 25 Ionawr 2018

sicrwydd na fydd y gwaith drafftio deddfwriaethol yn cael unrhyw effaith ymarferol ar sut mae pobl yn cael mynediad at wasanaethau'r Ombwdsmon.

# 9. Rhan 7 Amrywiol a Chyffredinol

## Mae Rhan 7 yn rhoi dyletswydd statudol ar yr Ombwdsmon i baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer y Gymraeg. Mae'r dystiolaeth a gymerwyd gennym yn awgrymu bod angen cryfhau'r ddyletswydd hon.

**225.** O dan Ddeddf 2005, nid oes gan yr Ombwdsmon ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae gan yr Ombwdsmon Bolisi anstatudol ar gyfer y Gymraeg sy'n nodi ei fod yn cydnabod yr egwyddor a sefydlwyd gan **Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993** a **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**.

**226.** Mae adran 71 o'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer paratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer y Gymraeg. Byddai'n ofynnol i'r Ombwdsmon gynnal asesiad o'r angen i swyddogaethau'r Ombwdsmon gael eu cyflawni yn Gymraeg a bod angen cymryd camau i ddiwallu'r anghenion hynny.

## 9. 1. Tystiolaeth gan randdeiliaid

**227.** Roedd Comisiynydd y Gymraeg a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg yn teimlo y dylid cryfhau'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Dywedodd Cymdeithas yr Iaith wrthym y dylid rhoi rhagor o ddyletswyddau ar wyneb y Bil, gan gynnwys ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg; gan roi sylw dyledus i sylwadau'r Comisiynydd a rhoi sylw dyledus i **Safonau'r Gymraeg (Rhif 1)**.[199] Gan fynd ymhellach, dywedodd y dylai'r Ombwdsmon "ddod o dan Safonau'r Gymraeg".[200]

**228.** Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn rhannu rhai o'r pryderon a fynegwyd gan Gymdeithas yr Iaith, sef bod y Bil yn rhoi gormod o ddisgresiwn i'r Ombwdsmon. O ganlyniad, dywedodd y dylid diwygio'r Bil i roi gofynion mwy penodol ar yr Ombwdsmon. Awgrymodd y Comisiynydd ddau lwybr posibl i wneud hyn:

- Datgan y dylai'r gofynion adlewyrchu'r **Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016**; neu
- Gwneud yr Ombwdsmon yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Dywedodd y Comisiynydd fod hwn yn ddull ymarferol o gyflawni'r hyn a

[199] **PSOW28 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**, paragraff 3.5
[200] **PSOW28 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**, paragraff 3.7

ddeisyfir yn amcanion adran 71.[201]

**229.** Gan ymateb i'r ymgynghroiad ar y Bil drafft, roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi dweud:

> "Er nad yw'r Ombwdsmon yn ddarostyngedig i Safonau ar sail statws cyfansoddiadol, mae gan yr Ombwdsmon rôl i wasanaethu ar ran y cyhoedd. Dylai fod yn ddisgwyliad, yn hytrach nag yn fater o ddisgresiwn, bod deilydd swydd gyhoeddus yn defnyddio'r Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau."[202]

## 9. 2. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**230.** Ni chymerwyd unrhyw dystiolaeth gennym gan Lywodraeth Cymru ar y darpariaethau yn y rhan hon o'r Bil.

## 9. 3. Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**231.** Codwyd y materion hyn gyda'r Aelod Cyfrifol a dywedodd wrthym:

> "…rwyf yn meddwl bod yna bwynt, efallai—ac rwy'n hapus iawn i ailedrych ar y darn yma—i'w wneud yn gwbl glir ar wyneb y Bil fod y strategaeth iaith yn dilyn yr arfer gorau yn y maes, ac efallai bydd angen ymgynghori â phobl ynglŷn â hynny…os oes modd cryfhau rhywfaint yna i fod yn gwbl glir, byddwn i'n agored iawn i wneud hynny."[203]

## 9. 4. Ein barn ni

**232.** Er ein bod yn croesawu'r darpariaethau yn y Bil sy'n gosod gofyniad ar yr Ombwdsmon i ddatblygu strategaeth ar gyfer y Gymraeg, credwn fod angen cryfhau'r rhain er mwyn sicrhau bod gan yr Ombwdsmon strategaeth gadarn ar gyfer y Gymraeg.

**233.** Nid ydym yn credu ei bod yn briodol i'r Ombwdsmon ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu pryd y cynhelir adolygiad o'r strategaeth ofynnol, a phryd y dylid gwneud newidiadau iddi. Credwn fod angen cryfhau hyn yn y Bil.

**234.** Rydym yn cydnabod y byddai'n amhriodol i'r Ombwdsmon fod yn

---

[201] **PSOW19 Comisiynydd y Gymraeg**

[202] **DBPSOW 07 Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i'r ymgynghoriad ar y Fil Drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

[203] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [478], 25 Ionawr 2018

ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, oherwydd "statws cyfansoddiadol" yr Ombwdsmon (paragraff 229). Gan fod yr Ombwdsmon yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd, mae'n bwysig ei fod yn darparu gwasanaethau dwyieithog yn yr un modd â chyrff cyhoeddus eraill.  Disgwylion i Strategaeth yr Ombwdsmon ar gyfer y Gymraeg ddilyn egwyddorion Safonau'r Gymraeg.

**235.** Byddwn yn monitro'r mater hwn drwy ein gwaith craffu blynyddol ar yr Ombwdsmon.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gryfhau'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau'n ymwneud â'r Gymraeg.

# 10. Materion technegol

## Ystyriwyd nifer o faterion technegol gennym yn ystod ein gwaith craffu.

**236.** Daeth nifer o faterion technegol i'r amlwg yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil.

### Adran 68 - Datgelu tystiolaeth

**237.** Mae Adran 68 yn darparu y dylai'r wybodaeth a geir yn ystod ymchwiliadau neu gan bersonau penodedig eraill mewn perthynas ag ymchwiliad, neu mewn cysylltiad ag ymchwiliad, gael ei chadw'n gyfrinachol ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig.

**238.** Roedd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru bryderon ynghylch goblygiadau ymarferol drafftio'r darpariaethau hyn. Dywedodd wrthym fod yr adran yn "gwahardd datgelu gwybodaeth sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, wybodaeth a roddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wrth gydweithredu dan adran 67". Roedd yn bryderus nad oedd y gwaharddiad yn "ystyried yn ddigonol ystod lawn swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol" nad ydynt yn gyfyngedig i archwiliadau, ac y dylid diwygio'r adran hon fel nad yw'n gweithredu fel cyfyngiad ar ddatgelu gwybodaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol.[204] Ymhelaethodd swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru ar hyn. Roeddent yn teimlo mai un dehongliad o'r adran hon oedd bod y gwaharddiad ond yn berthnasol i wybodaeth a gedwir gan yr Ombwdsmon, ond nad oeddent yn credu bod hwn yn dehongliad cadarn.[205]

**239.** Cynigiwyd y gellid ailddrafftio'r adran i'w gwneud yn fwy eglur bod hyn yn ymwneud â chyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth gan yr Ombwdsmon neu ei swyddfa.

**240.** Yn ôl ein dealltwriaeth ni, mae gwelliant o'r fath yn golygu y byddai'n atal yr Ombwdsmon rhag cyfeirio at y ddarpariaeth hon wrth rannu adroddiadau drafft er mwyn eu hatal rhag cael eu datgelu heb ganiatâd. Fodd bynnag, teimlwn y dylai'r Aelod Cyfrifol archwilio a oes modd cydbwyso'r pryderon a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol drwy ddarparu digon o amddiffyniad rhag datgelu adroddiadau heb ganiatâd.

---

[204] **PSOW29 Archwilydd Cyffredinol Cymru**, paragraff 7

[205] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [330], 13 Rhagfyr 2017

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn ystyried y dystiolaeth a gawsom mewn perthynas ag adran 68 ac yn ceisio dod o hyd i gydbwysedd rhwng amddiffyniad rhag datgelu adroddiadau drafft heb ganiatâd, a diogelu Archwilydd Cyffredinol Cymru fel na fydd yn cael ei annog rhag peidio ag ymgysylltu â'r Ombwdsmon.

## Adran 70 Diogelu rhag hawliadau difenwi

**241.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylid diwygio adran 70 sy'n darparu amddiffyniad rhag hawliadau difenwi er mwyn sicrhau "y dylid amddiffyn yr Archwilydd Cyffredinol yn glir".[206] Cadarnhaodd swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru fod Swyddfa Archwilio Cymru yn y gorffennol wedi derbyn bygythiadau o gamau difenwi, ond ei bod wedi'i hamddiffyn os yw'n gosod yr adroddiadau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Roeddent yn pryderu nad yw'r amddiffyniad yn glir yn achos adroddiadau ar y cyd.

> "…it's a lack of clarity that the AGW's joint report with the ombudsman would protect the AGM from an action for defamation because we don't see joint working as necessarily assisting the ombudsman in a strict legal sense."[207]

**242.** Rydym yn nodi bod gan yr Ombwdsmon amddiffyniad penodol at ddibenion difenwi yn y Bil. Mae gan eraill sy'n cynnwys Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru sydd â phwerau a dyletswyddau i gydweithredu â'r Ombwdsmon hefyd amddiffyniad datganedig ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn y drefn honno.

**243.** Yng ngoleuni hyn, credwn ei bod yn werth diwygio'r Bil i roi'r un amddiffyniad i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i amddiffyn Archwilydd Cyffredinol Cymru rhag hawliadau difenwi wrth weithio ar y cyd â'r Ombwdsmon.

## Atodlen 1

**244.** Tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd sylw at rai mân broblemau gydag Atodlen 1:

---

[206] **PSOW29 Archwilydd Cyffredinol Cymru**, paragraff 5

[207] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [315], 13 Rhagfyr 2018

- Er mwyn sicrhau arfer gorau, dylid diwygio paragraff 17 o Atodlen 1 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon bod yr Ombwdsmon wedi gwneud trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

- Dylid dileu'r terfyn amser pedwar mis i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno copi ardystiedig o gyfrifon yr Ombwdsmon.[208]

**245.** Gofynnwyd i'r Aelod Cyfrifol a fyddai'n ystyried diwygio'r Bil mewn perthynas â'r terfyn amser pedwar mis. Dywedodd ei fod yn arfer da cael cyfrifon archwiliedig o fewn pedwar mis, ond cyfaddefodd mai'r hyn a oedd ar goll oedd y gallu i'w amrywio mewn amgylchiadau penodol. Fodd bynnag, nid oedd yn siŵr a fyddai'n briodol ei newid mewn perthynas ag un corff, pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn archwilio ystod o gyrff ledled Cymru.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ystyried y materion a godwyd mewn perthynas â'r darpariaethau archwilio yn Atodlen 1 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

[208] **PSOW29 Archwilydd Cyffredinol Cymru**, paragraffau 20-21

# 11. Goblygiadau ariannol

## Er ein bod yn fodlon ar egwyddorion cyffredinol y Bil at ei gilydd, credwn fod angen gwneud mwy o waith ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**246.** Amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer ei wariant yn 2017-2018 oedd £4,248,000, a ariennir gan floc Cymru.[209] Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am graffu ar amcangyfrif yr Ombwdsmon, a chymeradwyo a yw'r gwariant arfaethedig yn rhesymol.

**247.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n nodi costau a manteision dau opsiwn dros gyfnod o bum mlynedd, gan gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Gwneud dim (Effaith bosibl ar yr Ombwdsmon yn sgil cynnydd yn y llwyth achosion dros y pum mlynedd nesaf);
- Osgoi costau (Arbedion posib i'r Ombwdsmon yn ymwneud â lliniaru'r cynnydd yn y llwyth achosion a fyddai'n deillio o ddarpariaethau'r Bil (o gymharu â'r pwerau yn Neddf 2005);
- Costau ychwanegol (Costau sy'n gysylltiedig â'r pwerau newydd yn y Bil).

**248.** Fel y crybwyllwyd ym mharagraffau 8-10, gofynnwyd am fewnbwn gan gynghorydd arbenigol. Mae'r adroddiad gan Dr Gavin McBurnie wedi ein helpu gyda'n gwaith ac i ystyried goblygiadau ariannol y Bil.

**249.** Mae'n werth nodi, er bod yr cynghorydd arbenigol yn tynnu sylw at rai meysydd lle mae'n teimlo bod angen rhagor o fanylion, neu os yw'n credu bod amcangyfrifon yn rhy isel neu'n rhy uchel, mae'n cefnogi ymestyn y pwerau yn y Bil.

**250.** Dywedodd nifer o dystion, gan gynnwys yr Aelod Cyfrifol, ei bod yn anodd gwneud rhagdybiaethau ynghylch y graddau y gall pwerau newydd a gyflwynwyd gan y Bil arwain at newid ymddygiad. Roedd Conffederasiwn GIG Cymru yn

---

[209] Trysorlys Ei Mawrhydi sy'n rheoli lefel gyffredinol gwariant cyhoeddus yn y DU bob blwyddyn. Mae cyfran o gyfanswm y cronfeydd a godir ledled y DU ac a glustnodir ar gyfer gwariant cyhoeddus yn cael ei dyrannu i Gymru a'r gyfran hon, a elwir yn "floc Cymru", yw sail y cyllidebau blynyddol y cytunir arnynt gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

cydnabod natur gynhwysfawr yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ond dywedodd:

> "Overall the financial implications within the Explanatory Memorandum are comprehensive, however estimating costs for the management and investigation of concerns raised via the Ombudsman's office is difficult due to the variable nature of the work needed."[210]

**251.** Rydym yn croesawu'r ymrwymiad a roddodd yr Aelod Cyfrifol mewn tystiolaeth lafar bod y Pwyllgor Cyllid yn awyddus i gynhyrchu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gorau posibl, a'i fod yn agored i gael tystiolaeth a gwybodaeth y gall eu defnyddio i helpu gyda hyn.

**252.** Mae'r tri thabl isod yn crynhoi'r wybodaeth ariannol allweddol a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil. Mae Tabl 1 yn nodi'r costau ychwanegol y bydd yr Ombwdsmon yn eu hwynebu o dan yr opsiwn "gwneud dim", sydd hefyd yn cyfaddawdu'r cynnydd yn y gost sylfaenol o dan yr opsiwn a ffefrir cyn ystyried y costau ychwanegol ac osgoi costau yn sgil y Bil. Mae Tabl 2 yn nodi costau ychwanegol y Bil i'r Ombwdsmon a sefydliadau'r sector cyhoeddus, ac mae tabl 3 yn nodi'r arbedion yn sgil osgoi costau i'r Ombwdsmon sy'n deillio o'r Bil.

Tabl 1: Costau yn deillio o'r cynnydd yn llwyth achosion yr Ombwdsmon o'r opsiwn "gwneud dim"

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o'r gost ychwanegol y flwyddyn yn seiliedig ar gynnydd o 5% yn y llwyth achosion | £178,857 | £187,875 | £197,394 | £207,414 | £217,434 | £988,974 |
| Amcangyfrif o'r gost gronnol ychwanegol yn seiliedig ar gynnydd o 5% yn y llwyth achosion | £178,857 | £366,732 | £564,126 | £771,540 | £988,974 | £2,870,229 |
| Amcangyfrif o'r gost ychwanegol y flwyddyn yn seiliedig ar gynnydd o 12% yn y llwyth achosion | £458,415 | £513,024 | £574,647 | £643,785 | £720,939 | £2,910,810 |

[210] PSOW13 Conffederasiwn GIG Cymru, paragraff 37

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o'r gost gronnols ychwanegol yn seiliedig ar gynnydd o 12% yn y llwyth achosion | £458,815 | £971,439 | £1,546,086 | £2,189,871 | £2,910,810 | £8,076,621 |

Tabl 2: Costau Ychwanegol yn Deillio o'r Bil

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o'r gost gronnol ychwanegol yn seiliedig ar gost uned isel ar gyfer costau anuniongyrch ol | £387,340 | £354,963 | £357,978 | £361,023 | £364,098 | £1,825,400 |
| Amcangyfrif o'r gost gronnol ychwanegol yn seiliedig ar gost uned uchel ar gyfer costau anuniongyrch ol | £428,749 | £375,922 | £379,146 | £382,402 | £385,692 | £1,951,910 |

Tabl 3: Arbedion yn sgil osgoi costau yn deillio o'r Bil

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o'r gost ychwanegol y flwyddyn yn seiliedig ar gynnydd o 12% yn y llwyth achosion | £38,577 | £106,212 | £450,900 | £809,616 | £1,228,953 | £2,634,258 |

## 11. 1. Materion cyffredinol

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**253.** Disgrifiodd yr Ombwdsmon y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil, fel bargen ond gan gydnabod bod angen ystyried yn ofalus unrhyw wariant cyhoeddus yn ystod y cyfnod parhaus o gyni. Fodd bynnag, tynnodd sylw at y ffaith y byddai'r Bil ond yn dychwelyd gwariant yr Ombwdsmon i lefelau 2010, a byddai'n parhau i fod yn is

na 0.03% o floc Cymru. Roedd yn teimlo ei fod yn werth da am arian.[211]

**254.** Nododd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru nad oedd yn afresymol disgwyl i'r costau gynyddu os gofynnir i'r Ombwdsmon ymgymryd â mwy o waith. Ychwanegodd ei bod yn anodd gweld o ble y deuai'r arbedion effeithlonrwydd yn y Bil, ond awgrymodd y gallai'r gwersi a ddysgir o gwynion leihau nifer y cwynion a ystyrir gan yr Ombwdsmon. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw arwydd bod hyn yn digwydd hyd yma.[212]

**255.** Tynnodd CLlLC hefyd sylw at yr anawsterau o ran asesu effaith y ddeddfwriaeth. Tynnodd sylw at y ffaith bod y Bil yn mynd ymhellach na newid prosesau cwynion ac mae'n ymwneud â newid diwylliant sefydliadol ac o bosibl ymddygiad y cyhoedd. Mae'n cydnabod bod llawer o ansicrwydd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.[213]

**256.** Cwestiynodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a ddylai'r Ombwdsmon gael adnoddau ychwanegol pan oedd cyllidebau sefydliadau eraill, megis Comisiynydd y Gymraeg, wedi lleihau.[214]

**257.** Clywsom bryderon am y pwysau ariannol ehangach ar y sector cyhoeddus, a'r effaith y gallai'r Bil hwn ei chael ar wasanaethau cyhoeddus sydd eisoes dan bwysau. Rydym hefyd yn ymwybodol bod yr Ombwdsmon wedi gweld cynnydd yn nifer y cysylltiadau gan y cyhoedd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roeddem am gael sicrwydd na fyddai'r ddau ffactor hyn yn gwneud y Bil yn rhy gostus, felly ymchwiliwyd i hyn gyda'r holl randdeiliaid.

**258.** Derbyniwyd yn gyffredinol y gall cwynion gael eu defnyddio, ac y dylent gael eu defnyddio, i ysgogi gwelliannau i wasanaethau, sef mater yr ydym wedi'i drafod ym Mhennod 7 ar Ran 4 o'r Bil.

**259.** Clywsom dystiolaeth gan Ombwdsmon Gogledd Iwerddon ei bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr ymholiadau a chwynion yn 2016-17. Roeddem am wybod a oedd hyn yn ganlyniad uniongyrchol i gael gwared ar y cyfyngiadau ar gwynion llafar, ond dywedodd ei bod yn teimlo bod newidiadau

---

[211] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [122], 7 Rhagfyr 2017

[212] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [205-209], 7 Rhagfyr 2017

[213] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [102-103], 11 Ionawr 2018

[214] **PSOW28 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**, paragraff 4.3

eraill wedi cael effaith fwy arwyddocaol[215] gan gynnwys ehangu ei chylch gwaith.[216]

**260.** Dywedodd yr Ombwdsmon wrthym y byddai'r arian a fyddai'n cael ei wario o ganlyniad i'r Bil yn cael ei wario ar sail buddsoddi i arbed, ac nad oedd y costau ychwanegol ar gyfer ei swyddfa yn sylweddol. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod y costau sy'n codi o'r Bil yn gostau strategol hirdymor, ac o'u cymharu â chostau cwynion i'r GIG, eu bod yn fach iawn.[217] Nododd hefyd fod costau sylweddol yn gysylltiedig â gwneud dim, a bod gwario mwy i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf yn werth ei wneud.[218]

**261.** Roedd gennym ddiddordeb gwybod ai dyma'r amser mwyaf priodol i roi pwerau ychwanegol i'r Ombwdsmon. Rydym yn ymwybodol bod yr Ombwdsmon wrthi'n cyflawni arbedion effeithlonrwydd, gan gynnwys adolygiad o TG. Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon a'i staff yn teimlo bod y ddau faes yn cyd-fynd â'i gilydd yn dda. Dywedasant y gallant integreiddio ymestyn pwerau i'r gwaith o ddatblygu eu systemau.[219]

**262.** Disgrifiwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel un cynhwysfawr iawn gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon. Dywedodd, ar sail ei phrofiad o ehangu cylch gwaith ei swyddfa, nad yw byth yn bosibl rhagweld lefel y cwynion. Dywedodd hefyd nad oedd unrhyw ffordd o ddeddfu ar gyfer galw, ond dywedodd fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys digon o ddadansoddiad sensitifrwydd i ystyried hyn.[220]

**263.** Dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol y byddai angen ymgymryd â rhywfaint o waith ymwybyddiaeth y cyhoedd er mwyn i bobl fod yn ymwybodol o'r pwerau newydd.[221]

**264.** Cododd Archwilydd Cyffredinol Cymru nifer o bwyntiau ynghylch cyflwyno

---

[215] Yn flaenorol, roedd yn rhaid i gwynion yng Ngogledd Iwerddon a oedd yn ymwneud â llywodraeth ganolog ac asiantaethau gael eu noddi gan Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon.

[216] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [326-327], 7 Rhagfyr 2017

[217] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [110-112], 7 Rhagfyr 2017

[218] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [112], 7 Rhagfyr 2017

[219] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [118, 120], 7 Rhagfyr 2017

[220] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [393-395], 7 Rhagfyr 2017

[221] **PSOW22 Y Coleg Nyrsio Brenhinol**, paragraff 6

manylion unigol o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cynnwys:

- Crynodeb cliriach o oblygiadau'r Bil;
- Rhoi'r rhagdybiaethau a'r ansicrwydd ym mharagraff 11.24 mewn lle amlwg yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, fel rhan o'r tabl crynodeb;
- Ymdrin â'r anghysondeb rhwng yr amcangyfrifon o'r arbedion sy'n seiliedig ar yr amcangyfrifon uwch o dwf mewn llwyth achosion, tra bod yr amcangyfrifon cost yn cael eu cyflwyno fel amrediad;
- Gwneud yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn fwy eglur ynglŷn â'r lefelau ansicrwydd ynghylch yr arbedion.[222] Roedd swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cefnogi'r farn hon yn eu tystiolaeth lafar.[223]

## Osgoi costau

**265.** Nid oedd yr holl randdeiliaid wedi'u hargyhoeddi gan y naratif ynghylch manteision a chostau'r Bil. Ar y mater hwn, dywedodd CLlLC wrthym:

> "The figure of £2.6m cost avoidance over 5 years therefore could be viewed as ambitious as it is not immediately apparent across which public services this cost avoidance will be achieved, whether it will be across all 66 specified bodies equally or whether it is anticipated to be within particular bodies, where the biggest improvements and therefore 'cost avoidance' could be made?"[224]

**266.** Nododd fod osgoi costau i swyddfa'r Ombwdsmon yn aml yn golygu symud costau i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus. Dywedodd Conffederasiwn y GIG, er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tybio y bydd rhywfaint o osgoi costau, nid oes tystiolaeth glir y bydd hyn yn cael ei wireddu.[225]

**267.** Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru wrthym:

> "I think the arguments for cost avoidance in the explanatory memorandum are respectable… But I would be very wary about the figures. If you were to say, 'Is it unlikely that any savings would be achieved?' I'd say, 'No, it shouldn't be unlikely'. 'Is it unlikely that 10 per

[222] **PSOW29 Archwilydd Cyffredinol Cymru**, paragraffau 11-13

[223] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [363], 13 Rhagfyr 2017

[224] **PSOW30 CLlLC**, paragraff 31

[225] **PSOW13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraff 38

> cent savings will be achieved?' 'It probably won't be 10 per cent, but 10 per cent is probably the best estimate that's available.' It's a case of not being too precise about the figures.[226]

**268.** Roedd CLlLC yn teimlo bod cyfle i gael mwy o eglurder yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar yr effaith ariannol ar gyrff cyhoeddus. Dywedodd, ynghyd ag eraill yn y sector iechyd,[227] ei bod yn annhebygol y byddai'r costau'n cael eu rhannu'n gyfartal ar draws y 66 awdurdod rhestredig. Roedd yn teimlo y gellid gwneud rhagor o waith i ddeall yr effeithiau gwahaniaethol, ariannol ar wahanol sectorau.[228] Roedd yn pryderu y gallai'r costau anuniongyrchol hyn fod yn sylweddol, os byddant ond yn dod i ran nifer fach o sefydliadau.

## Casgliadau'r Cynghorydd Arbenigol

**269.** Roedd y Cynghorydd Arbenigol yn cefnogi ymestyn y pwerau, ond roedd yn teimlo bod angen gwneud rhagor o waith ar rai materion.[229] Byddwn yn eu trafod o dan bob adran berthnasol.

**270.** Daw i'r casgliad a ganlyn:

> "…it is believed by the author that the direct costs associated with the proposals are overestimated, that the level of cost avoidance within the timescale covered by the RIA is also overestimated but may ultimately be greater than envisaged, and that the financial impact on bodies is seriously overestimated."[230]

**271.** Cododd y Cynghorydd Arbenigol bryderon ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â phrosesau pontio, staff a ffioedd proffesiynol. Roedd yn teimlo eu bod i gyd wedi eu goramcangyfrif. Roedd yn rhannu pryderon Llywodraeth Cymru bod y costau pontio yn eithaf uchel, mewn perthynas â chostau staff newydd, a'r costau rheolaidd eraill yn ymwneud â staff. Argymhellodd y dylid darparu rhagor o fanylion.

---

[226] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [365], 13 Rhagfyr 2017

[227] **PSOW13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraff 38

[228] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [105], 11 Ionawr 2018

[229] **Adroddiad y Cynghorydd Arbenigol**, Ionawr 2018

[230] **Adroddiad y Cynghorydd Arbenigol**, Ionawr 2018

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**272.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym mai ei brif bryder am y Bil oedd bod y costau a'r arbedion sy'n deillio o'r Bil yn cael eu harchwilio'n fanwl a'u hasesu i sicrhau eu bod yn gywir ac yn ddibynadwy.[231] Credwn ein bod wedi chwarae rhan yn hyn o beth ac rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn helpu'r Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru i asesu pa waith arall sydd angen ei wneud.

**273.** Hefyd, mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet bryderon ynghylch rhai o'r rhagdybiaethau cost a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a oedd yn cyd-daro â rhai o bryderon y Cynghorydd Arbenigol, yn enwedig o ran costau trosiannol megis costau ychwanegol o £5,000 ar gyfer pob aelod o staff newydd.[232]

**274.** Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at y ffaith, er bod costau ychwanegol y Bil wedi'u cyfrifo ar sail rhagdybiaeth y bydd cwynion yn cynyddu ar y lefel uchaf posibl o'r amcangyfrif (12%), mae'r costau a osgoir wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar ostyngiad o 18% yn y llwyth achosion oherwydd pwerau i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a datblygu safonau a gweithdrefnau ymdrin â chwynion. Dywedodd, os edrychir ar y rhagdybiaeth waethaf ynghylch sut y gall costau gynyddu, a'r rhagdybiaeth orau o ran osgoi costau, yna nid ydych yn cymharu tebyg at ei debyg.

**275.** Dywedodd, oherwydd dryswch yn y meysydd hyn, na allai fod yn hyderus y gellid dibynnu'n llwyr ar gostau'r Bil:

> "…when I read it I couldn't come away completely confidently that the worst scenario in one instance and the best scenario in the other was being assumed, and that, as a result, you've got costs that are relatively modest: £200,000 over five years. Even that is money not available for public services. But if you took a different set of assumptions, and the costs of the Bill turned out to be significantly more than that then I think the committee would obviously be taking that into account in coming to your overall assessment of whether the Bill is one you would wish to support.."[233]

---

[231] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [229], 11 Ionawr 2018

[232] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [231], 11 Ionawr 2018

[233] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [233], 11 Ionawr 2018

**276.** Ychwanegodd ei fod yn hapusach gyda Bil lle y byddai'r gost ar ben isaf y sbectrwm a gyfrifwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (e.e. tua £200,000), nag un a oedd ar ben arall y sbectrwm.[234]

**277.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym na fyddai'r Llywodraeth yn cyflwyno'r penderfyniad ariannol yn union ar ôl dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil.[235]

## Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**278.** Roedd yr Aelod Cyfrifol yn glir er bod y Bil hwn yn rhoi pwerau ychwanegol i'r Ombwdsmon, ei fod hefyd yn ceisio gwneud gwaith yr Ombwdsmon yn fwy effeithlon. Gan gydnabod y bydd cost yn gysylltiedig â'r pwerau ychwanegol, dywedodd y bydd yn rhaid i'r Ombwdsmon ostwng costau uned ymdrin â chwynion.[236]

**279.** Fe'n hatgoffodd fod gan y Pwyllgor Cyllid farn gadarn ar sefydliadau a ariennir gan floc Cymru:

> "Y cyd-destun i hynny yw un lle mae'r Pwyllgor Cyllid wedi'i gwneud yn glir iawn i bob corff sy'n cael ei ariannu o grant bloc Cymru yn ddiweddar, nad ydym yn disgwyl cynnydd sylweddol yn fwy na'r cynnydd sydd yn y bloc.  Rydym ni wedi dweud hynny wrth yr ombwdsmon, wrth yr archwilydd cyffredinol, ac wrth Gomisiwn y Cynulliad ei hun."[237]

**280.** Mewn tystiolaeth ddiweddarach, dywedodd:

> "Byddem ni hefyd yn cadw mewn golwg y canllaw.  Nid yw e'n statudol, ond mae wedi bod yn gyson nad yw'r ombwdsmon wedi defnyddio mwy na 0.03 y cant o'r bloc."[238]

---

[234] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [240], 11 Ionawr 2018

[235] Rhaid i benderfyniad ariannol gael ei gynnig a'i gytuno gan y Cynulliad, yn dilyn cytundeb ar yr egwyddorion cyffredinol gan y Cynulliad. Dim ond aelod o'r Llywodraeth all gynnig y cynnig. Os na chaiff cynnig ei gyflwyno a'i gytuno o fewn chwe mis i gwblhau Cyfnod 1, bydd y Bil yn methu.

[236] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [136-139], 29 Tachwedd 2017

[237] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [138], 29 Tachwedd 2017

[238] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [303], 25 Ionawr 2018

**281.** Pwysleisiodd fod y Pwyllgor Cyllid o'r farn y byddai costau'r Bil yn dangos budd amlwg i'r cyhoedd yng Nghymru. Dywedodd mai rôl yr Ombwdsmon yw ymateb pan fo aelod o'r cyhoedd wedi cael anhawster gyda gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, ac yn ceisio cael cyfiawnder. Hefyd:

> "Yr ail ran—a dyma lle, efallai, os nad yw'r cyntaf yn cyfiawnhau'r gwariant, mae'r ail ran yn cyfiawnhau'r gwariant—yw eich bod chi'n arwain at wella yng ngwasanaethau cyhoeddus drwy'r broses o ymdrin â chwynion, drwy'r broses o ymdrin â phroblemau y tu fewn i'r gwasanaethau hynny, a thrwy ateb gofynion yr unigolion."[239]

**282.** Pan godwyd y cydbwysedd rhwng gwariant ar wasanaethau a goruchwyliaeth gyda'r aelod cyfrifol, sef rhywbeth a gododd Ysgrifennydd y Cabinet gyda ni, dywedodd wrthym y gellid mynd â'r ddadl honno i "bwynt abswrd". Ychwanegodd, er ei bod yn bwysig taro'r cydbwysedd cywir, mai pwrpas y Bil yn y pen draw oedd sicrhau cydraddoldeb.[240]

**283.** Un o'r materion yr oedd gennym ddiddordeb penodol ynddo oedd bod yn hyderus bod y ffigurau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mor gywir â phosibl. Roedd hwn yn fater a godwyd gan y ddau randdeiliad ac Ysgrifennydd y Cabinet. Disgrifiodd yr Aelod Cyfrifol wrthym sut y cyfrifwyd y ffigurau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

- Profiadau swyddfa'r Ombwdsmon;
- Costau cyfredol yr Ombwdsmon wrth ddelio â chwynion a sefydliadau eraill;
- Ombwdsmon yn cysylltu â chyrff cyhoeddus i brofi'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.[241]

**284.** Cadarnhaodd cynrychiolwyr Conffederasiwn GIG Cymru eu bod wedi bod yn gweithio gyda'r Ombwdsmon i edrych ar gostau ymchwiliad o fewn sefydliad.[242]

**285.** Mewn perthynas â phryderon ynghylch y gost bosibl o hyrwyddo'r pwerau

---

[239] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [206], 25 Ionawr 2018

[240] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [209-211], 25 Ionawr 2018

[241] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [212], 25 Ionawr 2018

[242] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [234], 7 Rhagfyr 2017

newydd, dywedodd yr Aelod Cyfrifol ei fod wedi cael trafodaethau gyda'r Ombwdsmon, a oedd yn teimlo y gellid talu'r costau hyn o'r arian cyffredinol sydd ar gael iddo, ac na fyddai angen arian ychwanegol.[243]

**286.** ROedd yr Aelod Cyfrifol yn derbyn bod llwyth achosion yr Ombwdsmon wedi bod yn cynyddu, yn enwedig o du'r sector iechyd. Tynnodd sylw hefyd at dystiolaeth a glywodd gan ombwdsmon rhyngwladol a ddywedodd pan fydd cyllid cyhoeddus yn lleihau, bod cwynion yn debygol o gynyddu.[244]

**287.** Pan holwyd yr Aelod Cyfrifol yn fanylach ynghylch materion yn ymwneud â chostau ychwanegol i'r cyrff cyhoeddus o fewn cylch gwaith yr Ombwdsmon, dywedodd wrthym nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r arbedion i gyrff cyhoeddus oherwydd byddai'n "amhosibl i amcangyfrif"[245] hynny. Pwysleisiodd mai'r amcangyfrif a wneir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw y byddai gostyngiad o tua 40 o achosion y flwyddyn, ond bod hyn ar draws y sector cyhoeddus cyfan. Pan awgrymwyd y gellid dadansoddi ymhellach ble y byddai'r gostyngiad mewn cwynion yn debygol o gael ei weld, dywedodd wrthym:

> "Bydd yn rhaid i ni fod yn siŵr nad ydym ni yn siaso manylion na fydd yn cyfoethogi'r wybodaeth sydd yn yr RIA."[246]

## Ein barn ni

**288.** Rydym yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru na fydd yn cyflwyno'r cynnig ar y penderfyniad ariannol nes bydd gwaith pellach wedi'i wneud ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Rydym yn pwyso ar y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru i gydweithio i sicrhau bod hyn yn digwydd o fewn y terfyn amser chwe mis.

**289.** Credwn fod yr achos wedi'i wneud ar gyfer bwriad polisi'r Bil, ond, rydym yn rhannu rhai o bryderon ac amheuon y rhanddeiliaid ynghylch goblygiadau ariannol y Bil. Felly, hoffem weld rhywfaint o waith pellach yn cael ei wneud ar rai o fanylion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Rydym wedi gwneud argymhellion yn y bennod hon ar ble mae angen rhagor o waith.

---

[243] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [146], 29 Tachwedd 2017

[244] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [235], 25 Ionawr 2018

[245] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [316], 25 Ionawr 2018

[246] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [315], 25 Ionawr 2018

**290.** Ymatebodd yr Aelod Cyfrifol i adroddiad y Cynghorydd Arbenigol ar 8 Chwefror.[247] Rydym yn siomedig na dderbyniodd ddim o'r argymhellion a'r casgliadau. Roedd yr ymateb yn rhoi mwy o eglurder a manylion fodd bynnag, ac rydym yn croesawu hynny. Serch hynny, credwn fod adroddiad y Cynghorydd Arbenigol yn ddefnyddiol o ran craffu ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac yn gwneud nifer o awgrymiadau lle y byddai mwy o wybodaeth yn ddefnyddiol. Rydym wedi gwneud argymhellion i weithredu rhai o ganfyddiadau'r Cynghorydd Arbenigol, ac rydym yn annog yr Aelod Cyfrifol i dderbyn yr argymhellion hynny.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyhoeddi Memorandwm Esboniadol diwygiedig ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyn Cyfnod 2 gan roi ystyriaeth i argymhellion y Pwyllgor.

**291.** Rydym yn ymwybodol y bydd y baich gwaith ychwanegol sy'n deillio o ddarpariaethau'r Bil yn golygu y bydd angen i'r Ombwdsmon gynhyrchu mwy o arbedion effeithlonrwydd wrth ymdrin â chwynion a ddaw i law. Ni fyddai'n dderbyniol inni i'r Ombwdsmon geisio galw am gynnydd sylweddol mewn cyllid o ganlyniad i'r pwerau i ymchwilio ar ei liwt ei hun. Felly rydym yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan yr Ombwdsmon, ac a gefnogir gan yr Aelod Cyfrifol, na fydd yr Ombwdsmon yn ceisio cyllid uwchlaw 0.03% o floc Cymru. Credwn fod hwn yn ddull gweithredu darbodus, ac yn rhoi sicrwydd na fydd yr Ombwdsmon yn ceisio cynnydd afresymol yn ei gyllideb os bydd y ddeddfwriaeth hon yn cael ei gweithredu.

**292.** Rydym yn cytuno â barn y rhanddeiliaid y dylid gwneud rhagor o waith i nodi lle y bydd baich cost yn dod i ran awdurdodau rhestredig.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn gwneud dadansoddiad pellach ac yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys rhagor o fanylion mewn perthynas â pha sectorau ac awdurdodau rhestredig sydd fwyaf tebygol o ysgwyddo baich y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil.

**293.** Rydym yn derbyn barn y Cynghorydd Arbenigol ac Ysgrifennydd y Cabinet a'u sylwadau ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â staff. Credwn fod angen gwneud rhagor o waith er mwyn i'r Cynulliad fod yn sicr bod yr amcangyfrifon mor gywir â phosibl.

[247] Llythyr oddi wrth Simon Thomas i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau 8 Chwefror 2018

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn ailystyried lefelau'r costau ar gyfer staff newydd a chostau rheolaidd yn ymwneud â staff.

## 11. 2. Ymchwiliadau ar ei liwt ei hun

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**294.** Trafodir y materion sy'n ymwneud â dyblygu swyddogaethau wrth roi pwerau'r Ombwdsmon i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ym Mhennod 4 o'n hadroddiad.  Fodd bynnag, rydym wedi nodi'r dystiolaeth a gafwyd ynglŷn â goblygiadau ariannol posibl cydweithio a dyblygu adnoddau isod.

**295.** Dywedodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wrthym, er y gallai cydweithio arwain at ganlyniad cryfach a gwell, yn aml roedd yn fwy o dreth ar adnoddau.[248]

**296.** Mynegodd Conffederasiwn y GIG bryderon ynglŷn ag effaith ariannol dyblygu, yn enwedig os oedd corff cyhoeddus yn destun ymchwiliadau niferus ar faterion tebyg, a fyddai'n cael effaith ar y sefydliad a fyddai'n destun ymchwiliad i gefnogi'r gwaith hwn.[249]

**297.** Roedd gennym ddiddordeb yn y dull gweithredu gwahanol a fabwysiadwyd yn yr Alban i ariannu ymchwiliadau ar ei liwt ei hun (nid oes gan Ombwdsmon yr Alban y pwerau hyn eto, ond mae gwaith paratoadol yn cael ei wneud). Byddai hyn yn golygu cyllidebu ar gyfer pob ymchwiliad ar ei liwt ei hun, a phe bai angen mwy o gyllideb i dalu am y costau, byddai Senedd yr Alban yn ystyried ceisiadau i ddefnyddio cyllideb wrth gefn.[250] Fe wnaethom drafod y syniad hwn gyda'r Aelod Cyfrifol (gweler paragraff 305).

### Casgliadau'r Cynghorydd Arbenigol

**298.** Daeth y Cynghorydd Arbenigol i'r casgliad fod y costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn yn rhesymol, ond nad yw'n debygol y byddai costau ychwanegol ar gyfer awdurdodau rhestredig. Mae hyn oherwydd bod unrhyw waith ychwanegol yn debygol o fod yn fach ac yn hawdd ei reoli o fewn yr adnoddau presennol.

---

[248] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [211], 7 Rhagfyr 2017

[249] **PSOW13 Conffederasiwn GIG Cymru**, paragraff 16

[250] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [398], 7 Rhagfyr 2017

**299.** Dywedodd:

> "Own initiative investigations are not likely to bring about significant reductions in individual complaints, but rather, their value lies in the fact that potential thousands of people can benefit from a single investigation, representing excellent value for money."[251]

**300.** Dywedodd fod £10,000 ar ffioedd proffesiynol yn ymddangos yn eithaf uchel, ac awgrymodd ffigur mwy rhesymol o £5,000.[252]

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**301.** Pan roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet ffigurau ar gost ymchwiliad ar ei liwt ei hun fel rhwng £9,100 ac £13,700. Roedd y rhain yn ffigurau y byddai'r Aelod Cyfrifol yn anghytuno â hwy yn ddiweddarach (gweler paragraff 304). Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn pryderu bod yr amrediad posibl mor eang.[253]

## Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**302.** Yr ydym eisoes wedi trafod goblygiadau polisi'r darpariaethau hyn, ac roedd rhan o'r gwaith craffu ariannol yn cynnwys ymchwilio i ddyblygu rhwng gwaith yr Ombwdsmon a'r rheoleiddwyr (Pennod 4). Pan bwyswyd arno, dywedodd yr Aelod Cyfrifol ei fod o'r farn bod y Pwyllgor Cyllid wedi cael y cydbwysedd yn gywir o ran sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon.[254]

**303.** Nid oedd yr Aelod Cyfrifol yn derbyn y ffigurau a ddefnyddiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas â'r costau ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun (paragraff 302). Nid oedd yn credu ei bod yn ffordd briodol o edrych ar y costau a chyfrifo cost yr ymchwiliad. Amlygodd y gallai nifer yr ymchwiliadau amrywio bob blwyddyn.[255]

**304.** Fe wnaethom hefyd gyflwyno'r awgrym o ddilyn y model sy'n cael ei ystyried yn yr Alban (paragraff 298), ond nid oedd yr Aelod Cyfrifol yn teimlo bod hyn yn

---

[251] **Adroddiad y Cynghorydd Arbenigol**, Ionawr 2018

[252] **Adroddiad y Cynghorydd Arbenigol**, paragraff 4.5, Ionawr 2018

[253] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [230], 11 Ionawr 2018

[254] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [258], 25 Ionawr 2018

[255] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [288], 25 Ionawr 2018

briodol, gan fod perygl o fynd i "gors wleidyddol" a:

> "Rydych chi naill ai'n ymddiried yn yr ombwdsmon gyda'r grymoedd hynny neu ddim. Byddwn i'n awgrymu, os nad ydych chi'n hapus gyda'r grymoedd hynny, rŷch chi'n tynnu'r grymoedd oddi ar wyneb y Bil yn hytrach na thrio'u rheoli nhw drwy ddull atodol cyllidol."[256]

### Ein barn ni

**305.** Mae costau'r cynnig yn ymwneud ag ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn rhoi sicrwydd inni yn gyffredinol. Fodd bynnag, credwn y byddai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei gryfhau pe bai mwy o eglurder ynghylch yr amrediad posibl o gostau ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, neu'r rhesymau dros beidio â darparu cost uned fesul ymchwiliad. Credwn y byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r anghytundeb rhwng Ysgrifennydd y Cabinet a'r Aelod Cyfrifol am gost uned yr ymchwiliadau.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn darparu mwy o eglurder ynghylch y costau uned posibl ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun.

## 11. 3. Dull o dderbyn ac atgyfeirio cwynion

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**306.** Nododd nifer o randdeiliaid y gallai fod mwy o gwynion llafar nag a awgrymir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn enwedig os caiff y newid ei hyrwyddo'n dda. Roedd hyn yn cynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru[257] a CLlLC.[258] Cyfeiriodd CLlLC at brofiad awdurdodau lleol o dderbyn cwynion llafar a oedd yn tueddu i fod yn gyfran sylweddol o gwynion.[259]

**307.** Dywedodd swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru, er bod yr amcangyfrifon o gwynion llafar ychwanegol yn isel, roedd ganddynt bryderon ynghylch sensitifrwydd y dadansoddiad. Dywedasant wrthym, pe bai 25 o gwynion ychwanegol yn dod yn 50 mewn gwirionedd, er bod y niferoedd yn dal yn fach, mae'r cynnydd yn sylweddol ac felly gallai gael effaith ar yr amcangyfrif o'r costau.

---

[256] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [290], 25 Ionawr 2018

[257] **PSOW29 Archwilydd Cyffredinol Cymru**, paragraff 10

[258] **PSOW30 CLlLC**, paragraff 31

[259] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [230], 11 Ionawr 2018

Dywedasant hefyd:

> "It's probably something that's really rather hard to estimate, because if there is a body of unmet need then I think it's going to be quite difficult to estimate that. I don't think the estimate is unreasonable, but I would just be rather cautious in thinking it's a firm figure because I think it could lead to disappointment."[260]

## Casgliadau'r Cynghorydd Arbenigol

**308.** Roedd y Cynghorydd Arbenigol yn cytuno â barn nifer o randdeiliaid bod y nifer ychwanegol o 25 o gwynion yn ymddangos yn gymedrol o ran maint. Dywedodd ei bod yn debygol, drwy ganiatáu cwynion llafar, y bydd cynnydd o gymharu â'r nifer a dderbynnir ar hyn o bryd.[261]

**309.** Mewn perthynas â chwynion llafar, gwnaeth y Cynghorydd Arbenigol nifer o awgrymiadau ynglŷn â newidiadau posibl i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

- Dylid cynnal dadansoddiad sensitifrwydd ar ganran uwch o gwynion a wnaed ar lafar gan ddefnyddio ffigur uwch fel 40% yn seiliedig ar dystiolaeth o'r DU a thystiolaeth ryngwladol;
- Dylid gwneud dadansoddiad sensitifrwydd yn edrych ar gynnydd cyffredinol o 10% ac 20% yn nifer y cwynion;
- Dylid darparu rhagor o wybodaeth ynghylch a oes angen aelod ychwanegol o staff ar raddfa cyflog uwch.

**310.** Mae casgliadau'r Cynghorydd Arbenigol ynghylch y potensial ar gyfer canran yr achwynwyr sy'n dymuno cwyno ar lafar yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth yn y DU a thystiolaeth ryngwladol. Nododd fod Gwasanaethau Ombwdsmyn (cynllun ombwdsmon y sector preifat) yn 2016-17 wedi derbyn 37% o gwynion llafar yn y DU. Yn rhyngwladol, mae ffigurau'n dangos bod Ombwdsmon Ontario wedi derbyn 61% o gwynion llafar yn 2016-17, tra bod ombwdsmyn ynni Awstralia wedi derbyn 70%-85% o gwynion llafar.

**311.** Nododd hefyd, os yw nifer y cwynion a dderbynnir yn sylweddol uwch na'r hyn a awgrymwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, efallai y bydd angen gwneud rhagor o waith ar yr effaith ar awdurdodau rhestredig.

---

[260] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [359], 13 Rhagfyr 2017

[261] **Adroddiad y Cynghorydd Arbenigol**, paragraff 4.5, Ionawr 2018

**312.** Mae'r dadansoddiad a'r manylion sy'n sail iddo i'w gweld yn adroddiad y Cynghorydd Arbenigol, a gynhwysir fel atodiad i'r adroddiad hwn.

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**313.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn amlwg iddo ar unwaith pam roedd gwahaniaeth rhwng costau cwynion ysgrifenedig (£501) a chostau cwynion llafar (£1,640).[262]

## Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**314.** Yng ngoleuni'r pryderon a godwyd ynglŷn â nifer y cwynion ychwanegol sy'n deillio o'r darpariaethau hyn, roedd yn ddefnyddiol clywed yr Aelod Cyfrifol yn egluro bod y ffigur o 25 o gwynion ychwanegol sy'n deillio o'r darpariaethau hyn yn "[g]wynion ar lafar ychwanegol—gwir ychwanegol i'r broses bresennol".[263] Cefnogodd ei swyddogion hyn, gan ddweud wrthym hefyd mai'r 25 o gwynion ychwanegol a fanylir yn y Memorandwm Esboniadol yw'r rhai a fydd yn arwain at gynnydd yn y llwyth gwaith i awdurdodau rhestredig.[264]

**315.** Hefyd, fe'n hatgoffodd fod gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn ar hyn o bryd o ran derbyn cwynion llafar, felly nid yw'n agor y llifddorau.[265]

**316.** Nododd yr Aelod Cyfrifol hefyd pe bai cwynion llafar yn cynyddu, mae'n debyg y byddai hyn yn mynd law yn llaw â gostyngiad mewn cwynion ysgrifenedig. Cyfeiriodd at enghreifftiau o wleidyddion sydd wedi gweld cynnydd sylweddol mewn gohebiaeth dros yr e-bost, ond gostyngiad mewn llythyrau ysgrifenedig yn sgil hynny, gan ddweud nad yw "cyfanswm" yr ohebiaeth wedi newid cymaint â hynny.[266]

**317.** Derbyniodd y bydd costau ychwanegol ynghlwm wrth gwynion llafar, ac y gallai'r system fod "o bosibl yn fwy costus", ond mai bwriad polisi'r Bil yw gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithlon, a bydd hynny'n arwain at ostyngiad

[262] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [230] 11 Ionawr 2018

[263] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [216], 25 Ionawr 2018

[264] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [266], 25 Ionawr 2018

[265] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [216], 25 Ionawr 2018

[266] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [224], 25 Ionawr 2018

mewn cwynion yn y pen draw. Roedd hefyd yn glir iawn bod yn rhaid edrych ar y goblygiadau ariannol yn eu cyfanrwydd,[267] a bod y costau ychwanegol yn ymwneud â'r darpariaethau hyn yn rhesymol, yn enwedig yng nghyd-destun ehangach y Bil.[268]

## Ein barn ni

**318.** Er ein bod yn cytuno bod cyfiawnhad dros y pŵer ychwanegol i dderbyn cwynion llafar, rydym o'r farn bod ansicrwydd sylweddol ynghylch cywirdeb y costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn tri maes.

**319.** Mae ein Cynghorydd Arbenigol wedi darparu cryn dystiolaeth o'r DU a thramor sy'n dangos bod yr amcangyfrif yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y bydd 10% o gwynion yn rhai llafar yn ansic, ac awgryma y dylid cynnal dadansoddiad sensitifrwydd gan ddefnyddio ffigur uwch megis 40%. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod paragraff 11.74 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod angen ymrwymiad amser ychwanegol i ymdrin â chŵyn a wneir ar lafar a bod hynny'n dasg fwy cymhleth. Felly, mae'r wybodaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu y byddai costau ychwanegol o'r rhan hon o'r Bil os yw cwynion llafar yn ffurfio cyfran uwch o gwynion na'r hyn a amcangyfrifir.

**320.** Rydym hefyd yn nodi bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif y bydd 25 o gwynion llafar ychwanegol y flwyddyn o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth, a bydd hyn yn parhau'n gyson dros y pum mlynedd. Gan y rhagwelir y bydd y cynnydd yn y llwyth achosion cyffredinol yn 5% neu 12% y flwyddyn, rydym yn synnu bod y rhagamcanion hyn yn awgrymu y bydd nifer y cwynion llafar ychwanegol yn aros ar yr un lefel bob blwyddyn yn ystod y cyfnod o bum mlynedd.

**321.** Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod ein Cynghorydd Arbenigol hefyd wedi awgrymu nad yw'r cyfiawnhad ym mharagraff 11.74 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ddigonol i wneud yr achos dros gael staff ychwanegol yn y maes hwn, gan y bydd angen i'r Ombwdsmon ganfod cyd-destun y cwynion, canfod pa anghyfiawnder sydd wedi'i ddioddef, a'r canlyniad y mae'r achwynydd ei eisiau waeth beth yw'r dull cwyno. Yn ein barn ni, mae hyn yn amlygu'r ansicrwydd ynghylch y costau hyn, a'r angen am waith ychwanegol ar y rhan hon o'r Asesiad

[267] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [224, 226], 25 Ionawr 2018

[268] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [275], 25 Ionawr 2018

Effaith Rheoleiddiol.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn gwneud dadansoddiad sensitifrwydd yn seiliedig ar amcanayfrif y bydd 40% o'r cwynion y bydd yr Ombwdsmon yn eu derbyn yn gwynion llafar, ac yn cyflwyno gwybodaeth am yr effaith ariannol y bydd y newid yng nghanran y cwynion a dderbynnir ar lafar yn ei chael ar y costau sy'n gysylltiedig â'r rhan hon o'r Bill.

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyflwyno gwybodaeth bellach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyfiawnhau'r costau staff ychwanegol sy'n deillio o'r pŵer i dderbyn cwynion llafar.

**322.** Rydym hefyd wedi ein hargyhoeddi gan dystiolaeth ein Cynghorydd Arbenigol, Gofal Cymdeithasol Cymru, CLlLC, Archwilydd Cyffredinol Cymru a swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru y gall nifer y cwynion ychwanegol sy'n deillio o'r pŵer i dderbyn cwynion llafar gynyddu'n fwy na'r disgwyl. Rydym yn cytuno â thystiolaeth Swyddfa Archwilio Cymru y gallai fod cronfa heb ei chyffwrdd o anghenion sydd heb eu diwallu mewn perthynas â chwynion ychwanegol yn deillio o'r pŵer hwn, a bod y ffigurau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol felly yn ansicr. Er ein bod yn derbyn pwynt yr Aelod Cyfrifol bod y 25 o gwynion ychwanegol ond yn cynnwys y rhai a fydd yn creu gwaith ychwanegol i awdurdodau rhestredig, rydym o'r farn bod maint y dystiolaeth a gafwyd gan ein Cynghorydd Arbenigol a rhanddeiliaid ar y pwynt hwn yn ddigonol i ddod i'r casgliad bod ansicrwydd ynghylch y costau ychwanegol yn y maes hwn.

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cynnal dadansoddiad sensitifrwydd o gynnydd cyffredinol yn yr holl gwynion o 10% ac 20%. (nid dim ond cwynion llafar).

## 11. 4. Ymchwilio i lwybr gofal cyhoeddus / preifat

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**323.** Roedd Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru yn teimlo bod yr amcangyfrif o nifer yr achosion a ddisgwylid o ganlyniad i'r darpariaethau hyn a roddwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (7 achos y flwyddyn) yn cyfateb i hynny hefyd felly nid oedd ganddi unrhyw bryderon ynghylch yr effaith ariannol ar y sector.

**324.** Dywedodd Gwasanaeth Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd Annibynnol wrthym ei fod yn eithaf siomedig nad oedd unrhyw awgrym o gostau'r sector preifat. Dywedodd fod ei gostau'n cael eu cyhoeddi bob

blwyddyn.[269] Ychwanegodd ei fod yn teimlo y byddai'r darpariaethau'n arwain at drin cwynion sy'n cwmpasu'r sectorau preifat a chyhoeddus yn fwy effeithlon, a gallant arwain at arbed costau.[270]

**325.** Un o'r materion a drafodwyd gyda'r tystion oedd defnyddio'r pwrs cyhoeddus i ymchwilio i fethiannau posibl yn y sector preifat. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer adennill costau mewn achosion lle mae'r sefydliad preifat wedi creu rhwystr. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru wrthym:

> "I think it's fair to say that we almost certainly would never obstruct any of the process."[271]

**326.** Roedd sefydliadau gan gynnwys CLlLC[272] yn cefnogi'r cynnig y dylai'r sector preifat ysgwyddo rhywfaint o gostau ymchwiliadau o'r fath.

## Casgliadau'r Cynghorydd Arbenigol

**327.** Er iddo dynnu sylw at y ffaith y gallai'r amcangyfrif o nifer y cwynion fod yn rhy isel, dywedodd y byddai'n rhaid i'r amcangyfrif fod yn sylweddol anghywir i gael effaith.

**328.** Roedd yn rhannu pryderon rhanddeiliaid eraill nad oedd amcangyfrif o'r effaith ar y sector preifat wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan ddisgrifio hyn fel hepgoriad pwysig. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod pe byddai'r amcangyfrif o saith cwyn yn gywir, y byddai'r costau'n nominal yn hytrach na gwirioneddol.[273]

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**329.** Ategodd Ysgrifennydd y Cabinet rywfaint o'r dystiolaeth arall a glywsom, gan nodi, yn ei farn ef, nad oedd y ffordd y mae'r costau a'r manteision i ddarparwyr gofal iechyd preifat wedi'u cwmpasu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn

---

[269] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [217], 13 Rhagfyr 2017

[270] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [219], 13 Rhagfyr 2017

[271] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [451], 7 Rhagfyr 2017

[272] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [123] 11 Ionawr 2018

[273] **Adroddiad y Cynghorydd Arbenigol**, paragraff 5.3, Ionawr 2018

ddigonol.[274]

**330.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, er ei fod yn cytuno â'r darpariaethau, fod ganddo bryderon mewn perthynas ag adennill costau gan ddarparwyr gofal iechyd preifat. Roedd yn teimlo bod y bar ar gyfer adennill costau wedi'i osod yn eithaf uchel ac y byddai'n rhaid i'r pwrs cyhoeddus dalu costau ymchwilio i fethiannau posibl yn y sector preifat. Roedd yn teimlo bod y bar:

> "right at the top….and I'm not certain that the case is fully made as to why the public should always be picking up the full costs of investigating a difficulty that may have occurred by a private provider."[275]

## Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**331.** Fe wnaethom drafod y ffaith bod y costau i'r sector preifat wedi'u hepgor o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn fwy manwl gyda'r Aelod Cyfrifol. Er ei fod yn derbyn ei fod yn hepgoriad, dywedodd wrthym ei fod yn fwriadol mewn ffordd oherwydd nad oeddent yn gallu cael gafael ar y ffigurau.[276] Nid oedd yn teimlo ei bod yn briodol defnyddio costau'r sector cyhoeddus, ac ni chredai y byddai'r ffigurau a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd Annibynnol (paragraff 324) yn briodol, gan y byddid yn cymharu pethau cwbl wahanol.[277]

**332.** Pwysleisiodd mai ffigurau "de minimis" oedd y rhai dan sylw gan mai dim ond saith achos sy'n debygol o godi bob blwyddyn. Dywedodd hefyd ei fod yn fater o resymoldeb h.y. a yw'n werth mynd ar ôl ffigurau bach pan nad yw'n newid y darlun ariannol cyffredinol. Roedd hefyd yn hyderus y byddai nifer y cwynion a ragwelir yn aros yn fach, ac y byddent ond yn effeithio ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol pe bai newid yn y polisi ynghylch y defnydd o'r sector preifat yn y GIG yng Nghymru.[278]

---

[274] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [227] 11 Ionawr 2018

[275] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [207] 11 Ionawr 2018

[276] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [297], 25 Ionawr 2018

[277] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [296], 25 Ionawr 2018

[278] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [297, 299], 25 Ionawr 2018

> "…the Finance Committee wasn't convinced that this was a big enough sum to have some kind of complex levy system or some other way of raising costs, but that this was a small enough sum to be dealt with in the overall work of the ombudsman's envelope, if you like. So, we have not been persuaded, at this stage, that there needs to be a separate cost recovery regime for this narrow and tightly-drawn aspect of public health provision."[279]

### Ein barn ni

**333.** Er bod hwn yn fater cymharol ddibwys, credwn y dylid diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys dadansoddiad mwy manwl o'r costau tebygol y byddai'r sector preifat yn eu hysgwyddo. Yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed gan Wasanaeth Dyfarnu ar Gwynion y Sector Annibynnol, credwn y gellid gwneud hyn mewn trafodaeth gyda'r sector preifat i helpu i nodi'r costau hyn.

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn ceisio darparu mwy o fanylion am y gost i'r sectr preifat yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dylid gwneud hyn drwy ymgynghori â Gwasanaeth Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd Annibynnol a darparwyr y sector preifat.

**334.** Er ein bod yn cydnabod pryderon Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y ffaith bod y bar a gyfer adennill costau yn uchel, rydym yn derbyn y ddarpariaeth fel y'i drafftiwyd. Rydym yn ymwybodol y gallai unrhyw newidiadau i'r darpariaethau sbarduno Erthygl 1 o Brotocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac y gellid barnu bod unrhyw newidiadau yn anghymesur â nod budd y cyhoedd, nad yw'n cydymffurfio â chyfraith hawliau dynol ac felly y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

## 11. 5. Gweithdrefnau ymdrin â chwynion

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**335.** Un o brif bryderon awdurdodau rhestredig oedd a fyddai cyflwyno gweithdrefnau cwyno enghreifftiol yn arwain at newidiadau o ran casglu data, a chostau posibl newid pecynnau meddalwedd TG, yn ogystal ag unrhyw hyfforddiant staff angenrheidiol sy'n deillio o newidiadau. Codwyd hyn gan CLlLC.[280]

---

[279] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [65], 29 Tachwedd 2017

[280] **PSOW30 CLlLC**, paragraff 34

**336.** Amlygodd CLlLC y ffaith bod yr amcangyfrif o'r costau pontio ar gyfer y darpariaethau hyn rhwng £10k a £31k, a chyfrifodd mai dim ond £157 - £470 yw hyn fesul sefydliad.[281] Nodwyd hefyd y byddai'r costau'n debygol o amrywio rhwng awdurdodau rhestredig, yn dibynnu ar y gwaith sy'n ofynnol i gyrraedd y safonau a osodwyd ar gyfer gweithdrefnau ymdrin â chwynion. Awgrymwyd y gellid cryfhau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y maes hwn.[282]

**337.** Dywedodd yr Ombwdsmon wrthym, pe bai'r cynigion yn cael eu cynnwys y gallai arbedion sylweddol gronni i gyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y cynlluniau enghreifftiol.[283]

**338.** Dywedodd Ysgol y Gyfraith Lerpwl wrthym fod angen eglurder ynghylch a yw'r costau a amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys cost sefydlu rhwydweithiau ymdrin â chwynion ar gyfer pob sector o awdurdodau rhestredig, fel y gwneir yn yr Alban.[284]

**339.**Fodd bynnag, dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban wrthym fod goblygiadau ariannol gweithredu safonau cwynion yn eithaf fformiwlaig gan fod y cyfrifiadau'n seiliedig ar faint o gyrff cyhoeddus sydd, faint o sectorau sydd, beth fydd hyn yn ei olygu a pha mor hir y bydd pob un yn ei gymryd.[285]

## Casgliadau'r cynghorydd arbenigol

**340.** Cyfeiriodd y Cynghorydd Arbenigol at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban fel model o arfer da yn y maes hwn. Fodd bynnag, dywedodd fod dysgu o'u profiad yn awgrymu y gallai'r broses weithredu fod yn arafach na'r hyn a awgrymwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac y gallai achosi oedi o ran y manteision a nodwyd.[286]

**341.**Dywedodd y Cynghorydd Arbenigol fod y model a ddefnyddir yn yr Alban yn un a ystyrir yn arfer da gan ei fod wedi sicrhau bod gweithdrefnau ymdrin â chwynion yn briodol ar gyfer y sector dynodedig. Dywedodd y byddai'n briodol

---

[281] **PSOW30 CLlLC**, paragraff 33

[282] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [105], 11 Ionawr 2018

[283] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [114], 29 Ionawr 2018

[284] **Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Lerpwl**, paragraffau 11-12

[285] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [397], 7 Rhagfyr 2017

[286] **Adroddiad y Cynghorydd Arbenigol**, paragraff 6.2, Ionawr 2018

dilyn model yr Alban yng ngoleuni pryderon Conffederasiwn GIG Cymru.[287]

**342.** Dywedodd y Cynghorydd Arbenigol y byddai'r darpariaethau yn debygol o arwain at gostau i awdurdodau rhestredig, ond nad yw'r rhain yn debygol o arwain at wariant sylweddol i gyrff.[288] Roedd y costau ychwanegol yn cynnwys hyfforddiant i staff yn bennaf, fel yr awgrymwyd gan CLILC. Fodd bynnag, dadleuodd y Cynghorydd Arbenigol y dylai'r costau hyn:

> "…should be able to be subsumed in the normal training, development and update processes that exist in well managed organisations, in line with the normal approach to updating staff of revisions in other policies, with the remaining costs likely to be able to be provided from within existing resources."[289]

**343.** Dywedodd y Cynghorydd Arbenigol hefyd y dylai proses well o ymdrin â chwynion leihau costau yn gyffredinol, gan y byddai llai o gwynion yn cael eu hatgyfeirio at swyddfa'r Ombwdsmon.[290]

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**344.** Ni wnaethom drafod yr elfen hon o'r darpariaethau gyda Llywodraeth Cymru.

## Tystiolaeth gan yr Aelod Cyfrifol

**345.** Dywedodd yr Aelod Cyfrifol wrthym mai swydd yr Ombwdsmon yw edrych ar gwynion a'u defnyddio i helpu i wella gwasanaethau.[291] Byddai hyn yn arwain at gostau llai yn yr hirdymor i swyddfa'r Ombwdsmon.[292]

**346.** Pan godasom farn ein Cynghorydd Arbenigol ag ef, sef y gallai fod mân gostau ychwanegol i gyrff cyhoeddus yn deillio o'r darpariaethau hyn, nododd, er eu bod yn agored i ailystyried yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, fod hyn yn ymylol i gydbwysedd cyffredinol y gost.[293]

---

[287] **Adroddiad y Cynghorydd Arbenigol**, paragraff 6.2, Ionawr 2018

[288] **Adroddiad y Cynghorydd Arbenigol**, paragraff 6.5, Ionawr 2018

[289] **Adroddiad y Cynghorydd Arbenigol**, paragraff 6.5, Ionawr 2018

[290] **Adroddiad y Cynghorydd Arbenigol**, paragraff 6.6, Ionawr 2018

[291] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [240], 25 Ionawr 2018

[292] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [303], 25 Ionawr 2018

[293] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [303], 25 Ionawr 2018

**347.** Dywedodd yr Aelod Cyfrifol fod y costau sy'n ymwneud â'r darpariaethau ar gyfer safonau cwynion yn ymwneud yn bennaf â staffio yn swyddfa'r Ombwdsmon, yn ogystal â chostau anuniongyrchol i'r awdurdodau rhestredig.[294]

### Ein barn ni

**348.** Rydym yn fodlon gyda'r costau fel y'u hamlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â darpariaethau Rhan 4. Er ein bod yn cydnabod y pryderon a godwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys CLlLC, ynghylch baich y costau ar awdurdodau rhestredig unigol, credwn na fydd yn gost sylweddol, ac y gellid ei hamsugno o fewn y cyllidebau presennol.

## 11. 6. Materion technegol

**349.** Ystyriwyd y materion technegol a ganlyn gennym yn ymwneud â chraffu ariannol:

- Diwygio'r Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu'r ffaith y bydd gwariant yn cael ei godi ar Gronfa Gyfunol Cymru; a
- Gwneud newidiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Llyfr Gwyrdd y Trysorlys.

### Codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru

**350.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw'n cynnwys datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ar briodoldeb codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, oherwydd wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar ehangu pwerau, nid oedd yr Archwilydd Cyffredinol yn teimlo y byddai unrhyw wariant uniongyrchol yn cael ei godi ar y grofna.[295]

**351.** Fodd bynnag, yn ei ymateb i'n hymgynghoriad, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol, ar ôl adolygu'r Bil fel y'i cyflwynwyd, y bydd darpariaethau a fydd yn arwain at godi gwariant uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, ac felly dylai fod adroddiad yn y Memorandwm Esboniadol. Aeth ymlaen i ddweud, ar ôl ystyried y Bil, ei fod:

[294] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [152], 29 Tachwedd 2017

[295] **Y Memorandwm Esboniadol**, paragraff 7.1-7.3

> "o'r farn fod y darpariaethau costau uniongyrchol ym mharagraffau 9 a 10 o Atodlen 1 i'r Bil yn briodol."[296]

**352.** Cadarnhaodd y gellid cynnwys y geiriau hyn mewn Memorandwm Esboniadol diwygiedig i sicrhau bod gofynion y Rheol Sefydlog yn cael eu bodloni.[297]

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn adolygu'r Memorandwm Esboniadol i gynnwys y datganiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar godi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

## Cysondeb â Llyfr Gwyrdd y Trysorlys

**353.** Mewn tystiolaeth lafar, cododd Ysgrifennydd y Cabinet bwynt technegol ynghylch anghysondebau â Llyfr Gwyrdd y Trysorlys[298] yr oedd yn teimlo bod angen eu diwygio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dywedodd wrthym fod y Llyfr Gwyrdd yn glir oherwydd y dylid cyflwyno'r costau mewn termau real a chan ddefnyddio prisiau cyson. Ychwanegodd:

> "In the RIA, general inflation has not been included in the calculations, but in paragraphs 11.29 and 11.30, staff costs have been increased by 1 per cent per annum to reflect rises in the cost of living. That must, therefore, be rooted in an assumption that salary increases will be 1 per cent higher than general price inflation. That would not have been true for a number of years past, and therefore we think that the treatment of that matter in the RIA isn't consistent with Green Book principles, and it would be better if it were to be put right."[299]

**354.** Pan wnaethom drafod hyn gyda'r Aelod Cyfrifol, dywedodd wrthym na fyddai'n newid y costau'n sylweddol, ac y byddai mewn gwirionedd yn eu lleihau, ond eu bod yn agored i edrych ar ddefnyddio ffigurau'r Llyfrau Gwyrdd.

**355.** Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ymdrechu i lunio'r Bil hwn i ddilyn arfer gorau, a chredwn, er cyflawnder, y dylid dilyn canllawiau'r Llyfr Gwyrdd yn yr achos hwn.

---

[296] **PSOW29 Archwilydd Cyffredinol Cymru**, paragraff 17

[297] **PSOW29 Archwilydd Cyffredinol Cymru**, paragraff 18

[298] Canllawiau yw'r Llyfr Gwyrdd sydd wedi'u cynhyrchu gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn amlinellu sut y dylai cyrff y sector cyhoeddus arfarnu cynigion cyn ymrwymo cyllid i bolisi, rhaglen neu brosiect.

[299] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, [228], 11 Ionawr 2018

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r canllawiau yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi.